# Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Genethod

2010-2011

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus | 2 |
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| Cyflwyniad | 9 |
| Trais domestig | 14 |
| Aflonyddwch | 23 |
| Treisio | 25 |
| Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) | 33 |
| Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod | 35 |
| Camdriniaeth plant | 39 |
| Masnachu mewn pobl | 43 |
| Puteindra | 46 |
| Pornograffi ac anweddustra | 50 |
| Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Grŵp ac Ardal | 54 |
| Geirfa | 58 |

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Mae Trais yn erbyn Menywod a Genethod (VAWG[1]) yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Yn 2010-11 dechreuasom ganolbwyntio mwy ar ansawdd ein herlyniadau a chefnogi Ardaloedd yn y symudiad tuag at atebolrwydd a thryloywder mwy lleol. Yn ystod y cyfnod hwn dechreuais fy ymweliadau â'r holl Ardaloedd yng Nghymru a Lloegr a chynnwys y gwaith lleol ar VAWG yn fy nhrafodaethau.

Yn 2010-11 bu i ni gyflwyno Safonau Ansawdd Craidd y CPS - set o Safonau Ansawdd Craidd sy'n wynebu'r cyhoedd, a oedd yn nodi ansawdd y gwasanaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w ddisgwyl gan y rheiny sy'n erlyn ar eu rhan. Mae'r safonau'n bwysig i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion sy'n dibynnu ar erlynyddion i gynnal eu dyletswyddau i safon uchel. Wrth asesu cydymffurfiad â'r safonau hyn bu i ni gynnwys asesiad penodol o sampl o achosion treisio. Yn Ionawr 2011 aethom gam ymhellach drwy gyflwyno system Sicrwydd VAWG benodol, ble mae Ardaloedd yn adrodd ynghylch amrediad o droseddau VAWG i'r Prif Swyddog Gweithredu ac i mi bob chwe mis, gan gynnwys asesiad ansoddol manwl chwarter o'u hachosion treisio. Dynododd ein set gyntaf o adroddiadau yn Ebrill 2011 dri cham allweddol lleol i bob Ardal roi sylw iddynt.

Roedd 2010-11 yn flwyddyn heriol i VAWG. Dynodwyd nifer o faterion ble'r oedd angen newid ac rydym wedi sicrhau ei fod yn digwydd. Yn Nhachwedd 2010 arweiniodd achos trais domestig treisio a oedd yn cynnwys menyw a gafodd ei heuogfarnu am geisio gwyrdroi cwrs cyfiawnder, wedi 'gwrthdyniad ffug' o honiadau bod ei gŵr wedi'i threisio ar sawl achlysur, at i ni ail-archwilio ein canllaw, ymgynghori'n eang â'r cyhoedd ac arbenigwyr yn y maes, gan arwain at gyflwyno canllaw newydd yn 2011.

Yn achos trais domestig buom hefyd weithio'n agos â grwpiau cymunedol allanol i adnabod prif faterion erlyniad, yn enwedig mewn cyswllt â sicrhau defnydd o dystiolaeth heblaw tystiolaeth y dioddefwr, rhoi sylw i ddioddefwyr sy'n tynnu eu honiadau'n ôl ac achosion yn cynnwys diffynyddion a dioddefwyr ifanc. Bu ein Canllaw Stelcio ac Aflonyddu newydd yn gymorth i gynyddu erlyniadau aflonyddu. Bu i ni hefyd gynyddu'r nifer o orchmynion ataliol ac erlyniadau am dorri gorchymyn peidio ag ymyrryd.

Yn 2010-11 parhaodd y graddfeydd athreuliad yn gyson yn erbyn cynnydd o 11% yn y nifer o diffynyddion VAWG[2] a erlynwyd a'r nifer y llwyddwyd i'w cael yn euog[3]. O 95,257 o ddiffynyddion a erlynwyd, cafodd 68,154 eu heuogfarnu.

---

[1] Bydd yr adroddiad hwn yn defnyddio'r derminoleg draws-lywodraeth newydd o Drais yn erbyn Menywod a Genethod (VAWG) drwy'r testun yn hytrach na Thrais yn erbyn Menywod (VAW) fel mewn adroddiadau blaenorol.
[2] Cafodd deilliannau erlyniad eu monitro ar gyfer trais domestig, treisio a throseddau rhywiol.
[3] Mae'r ystadegau swyddogol yng nghyswllt trosedd a phlismona yn cael eu cadw gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ystadegau swyddogol yn achos dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwyr i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r CPS yn casglu data i gynorthwyo rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyn. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cael eu cyfrif yn ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Mae euogfarnau'n cael eu mesur o gyhuddiad i euogfarn, ac mae cafeatau ar gyfer data wedi'u cynnwys ym mhob rhan o'r adroddiad.

Yn 2011-12 gobeithiwn y bydd y sicrwydd VAWG ym mhob Ardal yn helpu Prif Erlynyddion y Goron i ddynodi unrhyw newidiadau pellach y maent angen eu gwneud, i barhau i wella nifer ac ansawdd erlyniadau. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Ardaloedd, a'r gwaith gyda'r grwpiau cymunedol lleol, am eu hymrwymiad i'r gwelliannau hyn.

**Keir Starmer QC**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**
**Tachwedd 2011**

# Crynodeb gweithredol

Rydym wedi newid fformat adroddiad VAWG 2010-11 i adlewyrchu'r symudiad o fewn y CPS i ganolbwyntio mwy ar ansawdd ein herlyniadau, gan symud i ffwrdd oddi wrth asesu ein deilliannau erlyniad yn ôl graddfeydd athreuliad yn unig. Nid ydym bellach yn gosod targedau, ond yn hytrach yn canolbwyntio mwy ar y patrwm mewn perfformiad erlyniad yn lleol ym mhob Ardal, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, ochr yn ochr ag ansawdd erlyniadau. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio mwy ar ddadansoddiad o'r prif faterion erlyn ym mhob maes trosedd VAWG - trais domestig, treisio, troseddau rhywiol, masnachu mewn pobl, puteindra, priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd, llurgunio organau rhywiol menywod, camdriniaeth plant a phornograffi. Defnyddir nifer o astudiaethau achos i ddangos rhai arferion da o Ardaloedd.

Yn unol â pholisi llywodraethol, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau. Gellir canfod y data gwaelodol ar gyfer yr adroddiad hwn ar wefan y CPS, yn yr adran Cyhoeddiadau o dan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## VAWG

Mae VAWG yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r CPS, fel rhan o'r ymrwymiad traws-lywodraeth i ymdrin â VAWG, yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Gweinidogion, gan gynnwys y Cyfreithiwr Cyffredinol a Thwrnai Cyffredinol yn cynrychioli'r CPS.

Ers cyflwyno strategaeth VAWG i'r CPS rydym wedi gweld y nifer o erlyniadau VAWG yn cynyddu'n flynyddol, o 68,930 yn 2006-07 i 95,257 eleni, cynnydd o 38%. Nid yn unig yr ydym yn erlyn rhagor o achosion, ond rydym yn erlyn yr achosion hynny'n llwyddiannus – gyda'r nifer o euogfarnau'n cynyddu o 52%, o 44,836 i 68,154. Mae'r gyfran o ddiffynyddion a gyhuddir ac sy'n derbyn euogfarn wedi cynyddu o 65% i 72% yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2010-11 yn unig bu cynnydd o 11% yn y nifer o erlyniadau ac euogfarnau. Mae hyn yn erbyn gostyngiad cyffredinol yn y nifer o achosion a glywir mewn llysoedd ynadon o 3.6% - ble y gwrandewir ar y mwyafrif o droseddau VAWG.

Cyflwynwyd y Safonau Ansawdd Craidd yn 2010-11, gan gynnwys mesur dilysu VAWG newydd ac asesiad o sampl o achosion treisio. Yn Ionawr 2011 sefydlwyd system Sicrwydd VAWG ansoddol benodol – gydag Ardaloedd yn adrodd ddwy waith y flwyddyn i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ynghylch eu perfformiad VAWG, gan gynnwys asesiad manwl o tua 25% o'u hachosion treisio. Mae'r ffocws wedi symud o asesiad canolog i un lleol, gyda gweithrediadau penodedig.

Mae Ardaloedd yn cael eu cefnogi gan gydlynwyr VAWG lleol, sy'n cynghori ar erlyniadau VAWG. Maent yn gweithio â grwpiau cymunedol lleol drwy Baneli Craffu Troseddau Casineb a Phaneli Ymgysylltu Cymunedau, a gafodd eu lliflinio a'u rhesymoli yn 2011 i sefydlu Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol. Cafodd materion dioddefwyr a ddynodwyd drwy'r CPS yn 2010-11 eu hintegreiddio i waith ar draws y llywodraeth drwy'r cynlluniau gweithredu VAWG traws-lywodraeth a gweithrediad adolygiad treisio Stern.

## Trais domestig

- Roedd cynnydd o 65% yn y nifer o erlyniadau trais domestig rhwng 2005-6[4] a 2010-11, a chynnydd cyfatebol o 99% yn y nifer o ddiffynyddion a gafodd eu heuogfarnu;
- Mae graddfeydd athreuliad wedi gostwng yn yr un cyfnod; â'r gyfradd o ddeilliannau llwyddiannus yn cynyddu o 60% i 72%;
- Yn y flwyddyn ddiwethaf (2010-11) mae'r gyfradd o ddiffynyddion a euogfarnwyd wedi parhau'n gyson ar 72%, yn erbyn cynnydd o 11% yn y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd (82,187) ac a euogfarnwyd (59,101);
- Mae astudiaethau achos o nifer o Ardaloedd yn dangos pwysigrwydd defnyddio tystiolaeth arall mewn achosion trais domestig, fel tapiau 999 a ffotograffau a chefnogi dioddefwyr i helpu gostwng y nifer o ddioddefwyr sy'n tynnu'n ôl, gwella erlyniadau a diogelwch dioddefwyr;
- Yn 2010-11, roedd 30% o ddiffynyddion o dan 24 mlwydd oed, o'r rheiny cofnodwyd 3,363 o ddiffynyddion fel unigolion oedd Dan 18;
- Yn 2010-11, nodwyd trais domestig rhwng pobl ifanc fel maes pryder gan randdeiliaid, a datblygwyd ymchwil yn 2011 i edrych yn fanylach ar erlyniadau a oedd yn cynnwys diffynyddion a dioddefwyr oedd o dan 18 oed.  Adroddir ar y canfyddiadau cychwynnol yn hwyr yn 2011.

## Aflonyddu

- Cafodd Canllawiau Canlyn ac Aflonyddu'r CPS eu cyhoeddi ym Medi 2010;
- Mae'r CPS wedi gweithio â'r heddlu i roi sylw i faterion aflonyddu, gan gynnwys cynnal cynhadledd ar y cyd;
- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 10,238 o droseddau aflonyddu yn 2010-11; o'r rhain roedd 6,245 (61%) yn ymwneud â thrais domestig;
- Cychwynnwyd erlyn 5,922 achos o dorri gorchymyn ataliol; o'r rhain roedd 4,055 (68%) yn ymwneud â thrais domestig;
- Cychwynnwyd erlyniad yn erbyn 5,281 o doriadau o orchmynion peidio ag ymyrryd.

## Treisio

- Mae'r ystadegau treisio cenedlaethol swyddogol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos ym mlwyddyn calendr 2010 bod 3,071 o ddiffynyddion[5] wedi eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon, ar sail prif drosedd, gyda 3,013 yn cael eu hanfon i Lys y Goron am dreial. Yn 2010 euogfarnwyd 1,058 o droseddwyr am dreisio, gan roi cymhareb erlyniad i euogfarn yn 2010 o 34 y cant;

---

[4] Cychwynnodd monitro data trais domestig yn 2004, ond roedd y data'n fwy cadarn o 2005-06 ymlaen.
[5] Gwybodaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Pan ystyrir mwy nag un drosedd mewn achos llys neu ddigwyddiad rhybuddio, tybir mai'r drosedd a fyddai/ a wnaeth ddenu'r deilliant dedfrydu mwyaf llym yw'r Brif drosedd ac mae'r troseddau eraill yr ymdrinnir â nhw yn yr achos hwnnw'n cael eu hanwybyddu. Os yw dwy drosedd yn yr un achos yn denu'r un ddedfryd, y drosedd sydd â'r ddedfryd statudol fwyaf a dybir yw'r 'Brif drosedd'.

- Dangosodd data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o 2008[6] o'r achosion treisio a glywyd yn Llys y Goron yn 2008 a'u cydweddu â deilliant yn 2008 neu 2009 (h.y. treialon a gwblhawyd):
    - cafwyd 58% yn euog o drosedd (42% yn ddieuog);
        - o'r rhain cafwyd 33% yn euog o dreisio;
        - a 14% pellach yn euog o drosedd rywiol arall;
        - cafwyd 5% yn euog o drosedd dreisgar, a 5% pellach o drosedd dditiadwy arall ac 1% o drosedd ddiannod.

- Ers 2007-08[7], mae data rheolaeth perfformiad y CPS wedi dangos cynnydd o 20% yn y nifer o erlyniadau a 22% yn nifer y diffynyddion a gafwyd yn euog;
- Yn 2010-11 bu gostyngiad bach yn y gyfradd o ddiffynyddion a gafwyd yn euog ar ôl cyhuddo[8] yn erbyn cynnydd o ddeg y cant yn y nifer o diffynyddion a erlynwyd a chynnydd o naw y cant yn y nifer a gafwyd yn euog;
- Gostyngodd deilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr o 16.5% yn 2009-10 i 14% yn 2010-11;
- O Orffennaf 2010 mae sampl o achosion treisio wedi'u cynnwys yn yr asesiad chwarterol o Safonau Ansawdd Craidd;
- O Ionawr 2011, cafodd sampl o tua 25% o achosion treisio ym mhob Ardal eu hasesu mewn rhagor o fanylder fel rhan o system Sicrwydd VAW;
- Erbyn Mawrth 2011, hyfforddwyd 890 o erlynyddion treisio arbenigol yn y dull seiliedig ar deilyngdod i ddelio ag erlyniadau treisio;
- Darperir nifer o astudiaethau achos sy'n dangos gwelliannau mewn erlyniadau treisio drwy'r dull seiliedig ar deilyngdod, y defnydd o gyfweliadau tystion cyn-treial, darpariaeth o wybodaeth i ddioddefwyr treisio; cyflwyno Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) a chymorth lleol i ddioddefwyr drwy Gynghorwyr Annibynnol ar Ymosodiadau Rhywiol (ISVAs);
- Cyhoeddwyd y canllaw ar gyhuddo gwyrdroi cwrs cyfiawnder mewn achosion yn cynnwys achwynwyr mewn achosion treisio ac/neu trais domestig yng Ngorffennaf 2011.

## Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

- Yn 2010-11 bu gostyngiad bach yn y gyfran o ddiffynyddion a gafwyd yn euog ar ôl cyhuddiad, yn erbyn cynnydd o un ar ddeg y cant yn y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd a chynnydd o naw y cant yn y nifer o'r rheiny a gafwyd yn euog.

## Priodas dan orfod, trais seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod

- O Ebrill 2010 ymdriniodd erlynyddion arbenigol hyfforddedig â phriodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd ym mhob Ardal, gydag achosion yn cael eu fflagio a'u monitro am y tro cyntaf[9];

---

[6] Cafodd y data diweddaraf am euogfarnau ar gyfer yr holl achosion a erlynwyd am dreisio eu darparu o adroddiad Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: "*Providing anonymity to those accused of rape: An assessment of evidence*".
[7] Cychwynnodd monitro'r CPS o achosion treisio yn hwyrach na thrais domestig.
[8] Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd a'u fflagio fel treisio o'r cychwyn, ond hefyd achosion ble y cafwyd euogfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i bwrpasau rheolaeth achos CPS yn unig ac nid ydynt yn ystadegau cenedlaethol swyddogol – gweler yr adran treisio am ragor o fanylion ynglŷn â chafeatau.
[9] Fel gydag unrhyw system fonitro newydd, mae angen amser i sefydlu'r defnydd cywir ohoni. Felly rhaid ystyried ansawdd a chywirdeb y data gyda gofal yn ystod y flwyddyn gyntaf hon.

- Yn 2010-11, cafodd 41 o ddiffynyddion eu herlyn am briodas dan orfod a 234 am droseddau trais yn seiliedig ar anrhydedd (HBV), gyda thua hanner yn cael eu heuogfarnu;
- Cynhaliodd Ardaloedd amrediad o fentrau i wella erlyniadau, gan gynnwys paneli craffu HBV; gweithio ag ysgolion a'r sector wirfoddol; cynnal cynadleddau lleol ac adeiladu achosion yn rhagweithiol gan ddefnyddio tystiolaeth arall fel CCTV, negeseuon ffôn a negeseuon testun;
- Datblygwyd canllaw'r CPS ar Lurgunio Organau Rhywiol Menywod yn 2010-11, ymgynghorwyd arno yn 2011 a'i gyhoeddi ym Medi 2011.

## Camdriniaeth plant

- Yn 2010-11 bu gostyngiad bach yn y nifer o erlyniadau troseddau lladdiad camdriniaeth plant[10], gyda chynnydd mewn deilliannau llwyddiannus;
- Bu cynnydd yn y nifer o erlyniadau troseddau yn erbyn yr unigolyn a throsedd rywiol;
- Bu cynnydd bach mewn deilliannau llwyddiannus ar gyfer troseddau yn erbyn yr unigolyn, gyda gostyngiad bach mewn deilliannau llwyddiannus ar gyfer trosedd rywiol;
- Mae'r CPS yn gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol ac ar draws y llywodraeth i ymdrin â materion camdriniaeth plant;
- Mae astudiaethau achos o Ardaloedd yn dangos erlyniad o gamdriniaeth plant hanesyddol, a chamdriniaeth plant byw ac ar y rhyngrwyd.

## Masnachu mewn pobl a phuteindra

- Datblygwyd Datganiad Polisi Cyhoeddus Masnachu Mewn Pobl y CPS yn 2010 - 11 a'i gyhoeddi â chanllaw adolygedig ar gyfer erlynyddion ym Mehefin 2011.
- Mae'r CPS wedi cyfrannu at strategaeth masnachu mewn pobl newydd y DU a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2011;
- Mae'r CPS nawr yn fflagio a monitro'r holl achosion o fasnachu a gychwynnwyd yn Ebrill 2010[11], cofnodwyd 103 o achosion yn 2010-11;
- Cafodd polisi a chanllaw cyfreithiol ar gamfanteisio ar buteindra ei gyhoeddi ym Mehefin 2011, a oedd yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlagio pen stryd, rheoli puteindra a thâl am wasanaethau rhywiol;
- Mae astudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o ISVAs arbenigol yn cefnogi gweithwyr rhyw.

## Pornograffi

- Yn 2010-11 bu cynnydd mewn erlyn delweddau o gamdriniaeth plant, gan gynnwys erlyniadau a gychwynnwyd am 17,400 o droseddau o gamfanteisio rhywiol ar blant drwy ffotograffau;

---

[10] Gweler y rhestr termau am ddiffiniad

[11] Gweler y rhestr termau am y troseddau fflagio. Fel gydag unrhyw system fonitro newydd, mae angen amser i sefydlu'r defnydd cywir ohoni. Felly rhaid ystyried ansawdd a chywirdeb y data gyda gofal yn ystod y flwyddyn gyntaf hon.

- Bu cynnydd mewn troseddau anweddustra a erlynwyd yn gysylltiedig â'r defnydd o dechnoleg a'r rhyngrwyd;
- Mae astudiaethau achos yn dangos erlyniadau pedoffiliaid a hudo genethod.

# Cyflwyniad

Adroddiad Trosedd VAWG y CPS yw'r pedwerydd argraffiad a gyhoeddwyd gan y CPS. Eleni mae fformat yr adroddiad wedi newid i adlewyrchu asesiad mwy ansoddol o berfformiad erlyniad a chefnogaeth i ddioddefwyr, gan adeiladu ar yr asesiadau ansoddol blaenorol a amlinellwyd mewn adroddiadau VAWG blaenorol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n trafod amrediad o feysydd VAWG:
- trais domestig
- treisio a throseddau rhywiol
- masnachu mewn pobl, â ffocws ar fasnachu i ddibenion camfanteisio rhywiol
- puteindra,
- priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod
- camdriniaeth plant
- pornograffi.

Mae'r adroddiad yn darparu data a sylwebaeth mewn adrannau ar wahân ar bob un o'r meysydd VAWG, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ac arfer dda. Mae'r prif faterion a gafodd eu dynodi yn 2010-11 wedi'u hamlygu ym mhob adran ac yn gallu newid yn ôl meysydd. Mae'r CPS yn casglu data[12] i gynorthwyo â rheolaeth effeithiol o'i swyddogaethau erlyniad. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cael eu cyfrif yn ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007[13].

Mae proffiliau cydraddoldeb ddiffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn cael eu hasesu ac adroddir arnynt yn yr adroddiad hwn. Adroddir ar ddata am ddioddefwyr pan fo ar gael, ac mae'n parhau i gael ei ddatblygu ymhellach.

## Cynlluniau traws-lywodraeth

Yn Nhachwedd 2010 bu i'r llywodraeth flaenoriaethu gwaith ar VAWG drwy gyhoeddi naratif VAWG traws-lywodraeth a chynlluniau gweithredu VAWG ym Mawrth 2011, gan gynnwys cynlluniau'r CPS ar gyfer 2011-12. Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i adolygiad treisio Stern hefyd ym Mawrth 2011, gan gynnwys gweithrediadau'r CPS ar dreisio, fel yr amlinellir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Cyfreithiwr Cyffredinol yn aelod o'r Grŵp Gweinidogion Trais yn erbyn Menywod a Genethod (VAWG) sy'n goruchwylio gweithrediad y cynlluniau hyn.

[12] Tynnwyd y data ar droseddau VAWG o System Rheoli Achosion y CPS (CMS) a'r System Rheoli Gwybodaeth gysylltiedig (MIS), sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi graddfa fawr, yn destun i gamgymeriadau posib wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro, ac yn destun i newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[13] Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throsedd a phlismona yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwyr i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## VAWG o fewn y CPS

Yn 2010-11 daeth cynllun gwaith VAWG strategol tair blynedd i ben a chafodd gwaith VAWG ei brif-ffrydio i gynlluniau busnes y CPS, ble mae'n cynnal ei flaenoriaeth yn y Gwasanaeth a pharheir i adrodd arno'n flynyddol. Bydd adroddiad ar wahân yn cael ei gyhoeddi gydag adolygiad o strategaeth VAWG y CPS 2008-11.

Ar lefel genedlaethol parhaodd y Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) VAWG, gan gynnwys grwpiau arbenigwyr VAWG allweddol, i gynghori'r rhaglen VAWG tan Ionawr 2011. O 2011 daeth yn is-grŵp y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ehangach.

Cyhoeddwyd canfyddiadau o'r ymgynghori ar hyder a bodlonrwydd rhanddeiliaid VAWG gan y CPS yng Ngorffennaf 2010 a'i fwydo i'r gwaith gydag ECG VAWG ac Ardaloedd. Bydd asesiad yn y dyfodol o fodlonrwydd rhanddeiliaid yn rhan o waith paneli lleol, a amlinellir isod.

Parhaodd yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gynnal y cyfrifoldeb cyffredinol am VAWG a chynnwys gwelliannau mewn VAWG fel rhan o'r amcanion cydraddoldeb craidd ar gyfer y sefydliad. Dangosodd Cyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi'r CPS ei hymrwymiad parhaus i VAWG drwy arweinwyr polisi dynodedig ar gyfer trais domestig, treisio, priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd, masnachu, puteindra a throseddau uwch-dechnoleg.

Cyflwynwyd canllaw stelcio ac aflonyddu ym Medi 2010.
Cyflwynwyd canllaw dros dro ar wyrdroi cwrs cyfiawnder yn Chwefror 2011, gyda chanllaw terfynol yn cael ei gyhoeddi yng Ngorffennaf 2011.
Ymgynghorwyd ar Ddatganiad Polisi Cyhoeddus ar Fasnachu Mewn Pobl y CPS yn 2010-11 a'i gyhoeddi ym Mehefin 2011. Cyhoeddwyd canllaw newydd ar gamfanteisio ar buteindra hefyd ym Mehefin 2011. Cafodd canllaw cyfreithiol FGM newydd, sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau erlyniadau am y drosedd hon, ei ddatblygu yn 2010-11, ymgynghorwyd arno 2011 a'i gyhoeddi ym Medi 2011.

Yn rhyngwladol roedd y rheolwr strategaeth VAWG yn rhan o banel arbenigwyr y Cenhedloedd Unedig yn Trinidad ym Medi 2010 ar ddatblygu model rhyngwladol i strategaethau VAWG. Roedd y swydd hefyd yn cynghori Asiantaeth yr UE ar Hawliau Sylfaenol (FRA) wrth ddatblygu arolwg VAWG o ddioddefwyr VAWG drwy Ewrop, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2011-12.

## Materion dioddefwyr

Gweithiodd y CPS ar draws y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) o 2009 ymlaen, i ddatblygu methodoleg i fesur cefnogaeth, diogelwch a bodlonrwydd dioddefwyr VAWG. Datblygwyd tri maes gwaith:

- Gweithiodd y CPS gyda'r Swyddfa Gartref wrth ddatblygu cwestiynau dioddefwyr VAWG pellach yn yr adolygiad o'r Arolwg Troseddu Prydain.
- Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn sgopio'r bylchau tystiolaeth mewn cyswllt â'r wybodaeth o ddioddefwyr a thystion, ac yn ystyried dioddefwyr trais domestig a throseddau rhywiol fel rhan o hyn. Bydd arweinyddion VAWG y CPS a'r Swyddfa Gartref yn cymryd rhan mewn trafodaethau wrth i'r gwaith hwn ddatblygu.

- Comisiynwyd adroddiad gan Gomisiwn Cenedlaethol y Menywod i asesu safbwyntiau dioddefwyr VAWG drwy amrediad o grwpiau ffocws[14], ar eu cefnogaeth, diogelwch a'u bodlonrwydd â'r System Cyfiawnder Troseddol. Cafodd yr argymhellion o'r adroddiad hwn eu hymgorffori ar draws y llywodraeth yn 2010-11 drwy ddatblygiad o gynlluniau gweithredu VAWG traws-lywodraeth, y gweithgor Stern a'r Grŵp Monitro Treisio.

Yng ngwaith yr Unedau Gofal Tystion, ymdriniwyd â systemau cymorth ar gyfer amrediad o gymunedau. Dosbarthwyd copïau o Lyfr Aur Cymorth i Fenywod o asiantaethau cymorth dioddefwyr i'r holl Unedau Gofal Tystion.

## Perfformiad VAWG


Yn 2010-11 cyflwynwyd y fframwaith Monitro Safon Ansawdd Craidd (CQSM) yn gyffredinol ar draws y CPS oedd yn cynnwys mesur dilysu VAWG newydd oedd yn asesu deilliannau aflwyddiannus ar gyfer trais domestig, troseddau rhywiol a treisio, yn ogystal â nifer of treisio erlyniadau. Nid yw'r system bellach yn mesur perfformiad yn erbyn targedau yn hytrach mae'n edrych ar batrymau Ardal yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol, ynghyd ag asesiadau manylach o ansawdd achosion treisio.

Yn Ionawr 2011, sefydlwyd system Sicrwydd VAWG ansoddol penodol, i Grwpiau ddarparu sicrwydd o'u perfformiad VAWG cyffredinol yn cynnwys asesiad manwl o erlyniadau trais domestig, treisio a throsedd rywiol bob chwe mis. Mae Ardaloedd yn derbyn adborth ar eu hadroddiadau sicrwydd gan y tîm VAW a DPP ac yn gorfod llunio tri phwynt gweithredu yn dilyn bob asesiad hanner blwyddyn. Mae'r broses sicrwydd hefyd yn cynnwys gofyniad i gynnal asesiad manylach o tua 25% o'r achosion treisio. Ceir manylion am CQSM treisio a sicrwydd achosion treisio yn adran treisio yr adroddiad hwn.

Yn 2010-11, ar draws erlyniadau VAWG sy'n trafod trais domestig, treisio a throseddau rhywiol, cafwyd cynnydd o 11% yn y nifer o achosion a erlynwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn cyrraedd 95,257 o ddiffynyddion, a allai ddangos bod rhagor o ddioddefwyr yn parhau i adrodd trais o'r fath i'r heddlu ac oherwydd hynny mae mwy o achosion yn cael eu cyhuddo gan y CPS i'w herlyn. Dylid edrych ar y cynnydd hwn yn erbyn gostyngiad o 3.6% yn y nifer o fewn bob achos a glywyd mewn llysoedd ynadon - clywir y mwyafrif o droseddau VAWG yn y llysoedd hyn. Cynyddodd y nifer o achosion a gafodd eu herlyn yn llwyddiannus hefyd o 11% gan gyrraedd 68,154, gyda'r gyfradd yn parhau'n gyson ar 72% o'r holl achosion VAW a erlynwyd. Mae Graff 1 yn dangos y patrwm dros y pedair blynedd ddiwethaf.

[14] Defnyddiwyd gwybodaeth o 26 grŵp ffocws oedd yn ymgynghori ag ychydig o dan 400 o ddioddefwyr fel sail yr ymchwil hwn.

**Graff 1:** **Nifer erlyniadau ac euogfarnau VAWG**




Fel mewn blynyddoedd blaenorol roedd y mwyafrif o droseddau a gafodd eu grwpio o dan VAWG i bwrpasau rheoli perfformiad yn drais domestig – yn 2010-11 roedd yn 86.3%, gyda threisio ar 4.4% a throseddau rhywiol, ac eithrio treisio, ar 9.3%, y ddau'n debyg i 2009-10.

## Materion cydraddoldeb

**Rhywedd**
Yn 2010-11, roedd 94% o ddiffynyddion VAWG yn ddynion, yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Cafwyd gwelliant mewn cofnodi rhywedd dioddefwyr hyd at 87% yn 2010-11. I'r rheiny sydd â rhywedd wedi'i gofnodi, roedd y gyfran o ddioddefwyr a oedd yn fenywod yn is o un y cant yn 2010-11, o'i gymharu â 2009-10, ar 84%.

**Ethnigrwydd**
Yn 2010-11, dynodwyd fod 75% o ddiffynyddion[15] trosedd VAWG yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig a 79% wedi'u categoreiddio'n Wyn (fel yn y flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 6% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 6% pellach yn Ddu, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol[16]. Ni chofnodwyd dros hanner ethnigrwydd dioddefwyr, felly ni adroddir arno yn yr adroddiad hwn.

**Oed**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (67%) a 18-24 (25%). Roedd yn bryder nodi fod 29% o ddiffynyddion (28,054) o dan 24, gyda 3,947 (ychydig dros 4%) o ddiffynyddion rhwng 14-17 oed a 380 (0.4%) rhwng 10-13 oed.  Mae cofnodi oed dioddefwyr wedi gwella hyd at 76%, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

---

[15] Mae data ethnigrwydd ar diffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau CJS cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.

[16] Ni wnaeth ychydig dan 2% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad ac mewn ychydig dros 4% o achosion pellach, ni chafodd ethnigrwydd y diffynnydd ei roi i'r CPS gan yr heddlu – y ddau yn welliant bychan o'r flwyddyn flaenorol.

## Gwersi cenedlaethol

Ymwelodd y DPP â llawer o Ardaloedd yn 2010-11. Roedd ei ymweliadau'n cynnwys goruchwylio'r gwaith VAWG hwn. Mae'r adborth o'r ymweliadau, ochr yn ochr ag achosion yn y parth cyhoeddus sydd wedi tynnu sylw at faterion, a chychwyn y sicrwydd ansoddol drwy'r system Sicrwydd VAWG newydd a amlinellir isod, i gyd wedi dechrau dangos ble y gellir gwneud gwelliannau pellach.

Un o'r achosion VAWG proffil uchaf yn 2010-11 oedd un yn cynnwys menyw a gafodd ei heuogfarnu am geisio gwyrdroi cwrs cyfiawnder yn dilyn gwneud 'gwrthdyniad ffug' o honiadau bod ei gŵr wedi'i threisio sawl tro. Nid yn unig yr arweiniodd yr achos hwn at ganllaw newydd i ddelio ag achosion o'r fath ond, ynghyd ag achosion eraill ble y dynodwyd gwersi, yr oedd yn dangos llawer o faterion rhyng-gysylltiol dioddefwyr VAWG sydd mor hanfodol yn yr holl droseddau VAWG. Mae gymaint o'r materion dioddefwyr VAWG yn debyg – eu cefnogaeth o'r heddlu i'r llys; y pwysigrwydd o gyfathrebu â dioddefwyr a'u hasiantaethau cymorth drwy gydol yr achos a defnydd o dystiolaeth arall ble bo ar gael er mwyn gostwng y pwysau a'r trawma i ddioddefwyr oherwydd y broses llys.

Mae achosion o'r fath hefyd wedi dangos y gorgyffyrddiad rhwng llawer o drais domestig ac achosion treisio, gyda llawer o ddioddefwyr yn cael eu treisio mewn perthnasau presennol neu flaenorol. Mae'r adroddiad yn archwilio gwelliannau er mwyn ymdrin â'r materion hyn yn yr adran sy'n trafod erlyniadau treisio.

## Gwaith Ardal VAWG

Yn 2010-11 symudodd y CPS o strwythur llywodraethu canolog i un sy'n fwy seiliedig ar berfformiad lleol. Cafodd gallu Grwpiau CPS[17] ei ddatblygu er mwyn sicrhau gwell gweithrediad lleol ac i sicrhau bod gwelliannau mewn effeithlonrwydd ac ansawdd yn parhau ac yn cael eu sefydlu mewn systemau lleol.

Parhaodd Cydlynwyr VAWG Ardal i chwarae rôl allweddol mewn gweithrediad lleol o bolisïau a gweithdrefnau VAWG. Yn Hydref 2010 cynhaliwyd seminar i Gydlynwyr i'w hyfforddi ar y system Sicrwydd VAWG newydd a'r canllaw stelcio ac aflonyddu newydd yn ogystal ag archwilio gweithio aml-asiantaeth, arfer dda mewn achosion treisio a materion dioddefwyr.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o Ardaloedd wedi cynnal paneli VAWG/DV/Treisio penodol fel rhan o'u Paneli Craffu Trosedd Casineb (HCSPs). Maent wedi cynnwys arbenigwyr cymunedol lleol i gynghori ar welliannau mewn erlyniadau VAWG. Cafodd HCSP's a Phaneli Ymgysylltu Cymunedau (CIP's) eu lliflinio a'u rhesymoli yn 2011 i sefydlu Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPs).


Mae'r adroddiad hefyd yn anelu at rannu arfer dda wrth ddynodi astudiaethau achos Ardal o fewn y meysydd VAWG.

[17] Yn 2010-11 roedd 13 Grŵp CPS a 42 o Ardaloedd; yn 2011 daeth yr 13 Grŵp yn 13 o Ardaloedd, gyda 42 o ardaloedd heddlu. Gan bod yr adroddiad hwn yn trafod 2010-11 bydd yn cyfeirio at yr 13 Grŵp a 42 Ardal a oedd yn weithredol ar y pryd.

# Trais domestig

Yn 2010-11, cafodd mwy o achosion o drais domestig eu herlyn gyda deilliannau mwy llwyddiannus. Mae Graff 2 yn dangos y duedd gynyddol o erlyniadau ac euogfarnau dros y chwe blynedd ddiwethaf.

**Graff 2:** **Nifer o erlyniadau ac euogfarnau trais domestig**




Cafodd dros 101,000 o achosion eu hanfon ymlaen at y CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniadau cyhuddo[18] yn 2010-11 pryd y cyhuddwyd 63%. Roedd hyn yn dangos cynnydd o 11% yn y nifer o achosion a anfonwyd ymlaen; 12% o gynnydd yn y nifer a gyhuddwyd, cyfran debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2010-11, troseddau yn erbyn yr unigolyn oedd y categori mwyaf niferus, yn cynrychioli 68% o droseddau trais domestig. Roedd difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn cyfrif am 13% a 7% pellach yn eu trefn, fel yn 2009-10[19].

Fel y gweler isod yn Nhabl 1, mae'r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf o 11% gan gyrraedd 82,187, gyda'r nifer o erlyniadau llwyddiannus, o gyhuddo i euogfarn, hefyd yn cynyddu o 11% gan gyrraedd 59,101. Arhosodd y gyfran o ddeilliannau llwyddiannus yn gyson, ar 72%.

**Tabl 1:** **Erlyniadau trais domestig ynôl deilliant**

| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | | 2010-11 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | **29,719** | **59.7** | **37,383** | **65.2** | **43,977** | **68.9** | **48,465** | **72.2** | **53,347** | **72.0** | **59,101** | **71.9** |
| Aflwyddiannus | **20,063** | **40.3** | **19,978** | **34.8** | **19,842** | **31.1** | **18,629** | **27.8** | **20,766** | **28.0** | **23,086** | **28.1** |
| **Cyfanswm** | **49,782** | | **57,361** | | **63,819** | | **67,094** | | **74,113** | | **82,187** | |

[18] Noder fod y nifer a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny a *anfonwyd ymlaen* at y CPS yn ystod 2010-11 am benderfyniadau cyhuddo ac nid ydynt yn medru cael eu cymharu'n uniongyrchol â'r rheiny a gafodd eu herlyn sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, *a gwblhawyd* yn ystod 2010-11.
[19] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau.

Cynyddodd nifer y diffynyddion a blediodd yn euog o 11% gan gyrraedd 53,460, gyda'r gyfran yn aros yn gyson ar 65% ac euogfarnau ar ôl treial ar 7%. Mae mwy o bledio'n euog yn gymorth, nid yn unig i gyflymu'r achosion a lleihau'r amser a dreulir yn paratoi ar gyfer treial, ond hefyd i leihau'r pwysau ar y dioddefwr gan na fydd rhaid iddo ef/iddi hi fynychu'r llys i roi tystiolaeth. Mae cynnydd mewn pledio'n euog yn arwyddocaol oherwydd mae ple euog ddiannod mewn llysoedd ynadon yn costio 16% o gost treial, gan adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd tybiannol a wneir gyda mwy o bledio'n euog.

## Llysoedd arbenigol TD

Mae llysoedd arbenigol trais domestig (SDVCs) wedi gwella'r deilliannau mewn achosion trais domestig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r CPS yn rhan o'r Grŵp Llywio Cenedlaethol traws-lywodraeth gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn goruchwylio achrediad yr SDVCs. Yn hwyr yn 2010 roedd 143 o SDVCs gyda chefnogaeth i ddioddefwyr trwy Gynghorwyr TD Annibynnol (IDVAs) ac asesiad o ddioddefwyr risg uchel drwy Gynadleddau Asesu Risg Aml Asiantaeth (MARACs). Gyda chau llysoedd ynadon sydd wedi'i gynllunio o Ebrill 2011, mae'r Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol wedi datblygu canllaw i SDVCs i sicrhau trosglwyddiad gwasanaethau arbenigol i drefniadau newydd.

## O gyhuddo i'r llys

Mewn achosion trais domestig, rhaid cael ymgynghoriad llawn a buan gyda'r heddlu i adeiladu achos gyda'i gilydd, trwy archwilio'r holl feysydd ymchwiliad a chasglu tystiolaeth i hysbysu'r penderfyniadau cyhuddo. Cesglir gwybodaeth fanwl ar y sawl sy'n cyflawni trosedd er mwyn asesu p'un a oes potensial i gyfuno achosion gyda'i gilydd ac/ neu gwneud cais i gael cyflwyno tystiolaeth 'cymeriad drwg'. Mewn achosion trais domestig, cesglir tystiolaeth arall pryd bynnag y bo'n bosib fel y gellir ystyried cynnydd yr achosion, waeth p'un a yw'r dioddefwr yn rhoi tystiolaeth ai peidio.

Fel arfer mae trais domestig yn digwydd yn y cartref, felly'r dioddefwr yw'r unig dyst yn aml, ond pryd bynnag y bo'n bosib, rydym yn symud ymlaen ar sail tystiolaeth arall, fel ffotograffau a defnydd tapiau 999 yn enwedig i helpu cynyddu'r rhagolwg o erlyniad llwyddiannus.

## Defnyddio tystiolaeth arall

**Newid ple**
Mewn achos o gurfa yn Llundain, ni wnaeth y dioddefwr fynychu ar ddiwrnod y treial. Agorodd adfocad y treial yr achos trwy amlinellu dibynadwyedd cynnwys y tâp 999 fel res gestae, tystiolaeth y swyddogion ynglŷn ag ymarweddiad yr achwynydd a'r hyn a ddywedodd y diffynnydd mewn cyfweliad. Yn dilyn hynny newidiodd y diffynnydd ei ble i euog cyn diwedd achos yr erlyniad.

Yn 2010-11, dangosodd Ardaloedd Suffolk a Norfolk beth gwaith arbennig o ardderchog mewn achosion trais domestig. Ymddengys fod cyswllt rhwng defnyddio'r dystiolaeth hon a gasglwyd yn gynnar yn y lleoliad a llwyddiant. Yn Suffolk roedd y gyfradd euogfarn i drais domestig yn 2010-11 yn 86 y cant; yn Norfolk 81 y cant, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 72 y cant.

**Tapiau 999**
Mewn achos yn Suffolk, roedd y dioddefwr yn rhoi lifft i hen gariad iddi yn ei char pan y dechreuodd fynd yn flin yn ystod y siwrnai, a dyrnio'r sgrin wynt gan achosi iddi gracio. Ffoniodd y dioddefwr yr heddlu pan gyrhaeddodd hi adref. Gwelodd y swyddog a alwodd yn ei chartref y difrod i'r sgrin wynt. Nododd fod y dioddefwr yn amlwg wedi cynhyrfu ac arestiodd y diffynnydd. Gwadodd y diffynnydd y drosedd gan honni fod y sgrin wynt wedi ei difrodi gan golomen. Gwelwyd niwed i figyrnau'r diffynnydd.

Yn y gwrandawiad cyntaf tua pythefnos wedyn, llediodd y diffynnydd yn ddieuog ac awgrymodd fod datganiad tynnu'n ôl wedi ei wneud gan y dioddefwr. Rhestrwyd yr achos ar gyfer treial tua 6 wythnos yn ddiweddarach ac yn y cyfamser, cafwyd datganiad tynnu'n ôl gan yr heddlu. Fodd bynnag, roedd gan yr heddlu gopi o'r tâp 999, a oedd yn cynnwys y diffynnydd yn y cefndir yn cyfaddef i'r drosedd. Pan roddwyd hynny gerbron y diffynnydd, newidiodd ei ble i euog yn gyflym.

**Tapiau 999**
Yn Norfolk, defnyddir tapiau 999 fel rhan arferol o'r dystiolaeth a ddefnyddir mewn achosion trais domestig. Mae'r holl alwadau 999 yn cael eu recordio gan yr heddlu ar yriant caled digidol, a elwir yn recordydd bocs coch. Mae'r heddlu'n anfon yr alwad 999 ynghlwm wrth e-bost at gyfreithiwr y CPS sy'n cyhuddo, ynghyd â CD mae wedi ei recordio arno. Mae'r broses o ganfod y recordiad 999 a'i lawrlwytho'n cymryd tua 10 munud. Dangoswyd llwyddiant y dull hwn gan achos ble'r oedd y diffynnydd wedi ei gael yn euog pan chwaraewyd y tâp 999 yn y llys a gellid clywed y dioddefwr yn glir mewn stad ofidus yn y cefndir.

**Lluniau**
Mae Suffolk hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddefnyddio ffotograffau a dynnwyd gan y swyddog a oedd yn mynychu ar adeg yr adroddiad. Mewn un achos cawsant eu defnyddio i brofi presenoldeb cochni i wddw'r achwynydd, gan roi cadarnhad i'r honiad iddi gael ei thagu. Yn y diwedd roedd hyn yn gritigol oherwydd erbyn i ffotograffau'r drosedd gael eu tynnu roedd y cochni bron wedi mynd.

## Tynnu'n ôl

Mae un o'r prif broblemau mewn achosion trais domestig yn ymwneud â'r dioddefwr yn tynnu'n ôl oherwydd y berthynas agos a chyfarwydd rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr. Methodd dros 7,500 o achosion trais domestig yn 2010-11 oherwydd naill ai fe fethodd y dioddefwr fynychu'r llys neu bu iddynt dynnu eu tystiolaeth yn ôl; hynny yw 1 o bob 3 o'r holl achosion a fethodd. Mae hynny'n cymharu â ffigwr cyffredinol o tua 10 y cant i'r holl erlyniadau.

Mae'r gyfran o ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr[20], allan o'r *holl* achosion a erlynwyd, wedi aros yn gyson tua 14% dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau tynnu'n ôl ac mae gwaith i wella hyn yn cael ei amlinellu isod.

Os yw dioddefwyr yn tynnu'n ôl yna ystyrir sut y gall achosion barhau trwy ddefnyddio tystiolaeth arall, trwy wneud cais achlust (dan adrannau 114 neu 116 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003) neu, fel cam olaf, trwy wysio dioddefwr i ymddangos.

**Cais achlust**
Cafwyd erlyniad llwyddiannus, yn cynnwys cais achlust dan s.114(1)(d). Mae'r adran hon o'r ddeddfwriaeth yn caniatáu achlust os yw'r llys yn fodlon ei fod er budd cyfiawnder iddo gael ei dderbyn – anaml y caiff ei roi dan yr adran hon. Cyhuddwyd y diffynnydd o ymosodiad cyffredin ar ei bartner, yr oedd wedi ei dyrnu yn ei wyneb yn y cartref gan achosi cleisio. Roedd wedi tynnu'n ôl ei chefnogaeth i erlyniad ar y sail nad oedd eisiau iddo gael ei erlyn. Cyhoeddwyd gwŷs tyst ond ni wnaeth ymddangos. Roedd ffotograffau o'r anaf ar gael a rhoddodd swyddogion a oedd yn bresennol yn y digwyddiad fanylion o'i hanafiadau a'i hymarweddiad. Roedd y dioddefwr wedi dweud wrth yr heddlu fod ei gŵr yn dod yn ôl adref wedi meddwi'n aml ac yn ymosod arni. Roedd arni gymaint o ofn fel ei bod wedi rhoi matres mewn cwpwrdd ble byddai'n cuddio a chysgu. Tynnwyd lluniau o'r llecyn yma a oedd yn cefnogi ei stori. Caniatawyd cais achlust yng ngoleuni'r holl dystiolaeth gefnogol a chafodd yr ynadon y diffynnydd yn euog.

## Gwysion

Mae ein canllaw'n glir, dim ond ar ôl pennu na fydd y dioddefwr yn rhoi tystiolaeth y dylid ystyried gwŷs, hyd yn oed gyda chymorth mesurau arbennig a chefnogaeth arall; ni all yr achos fynd ymlaen heb gyfranogiad y dioddefwr; ac ni fydd diogelwch y dioddefwr ac unrhyw blant yn cael ei beryglu gan yr achos yn parhau. Ystyrir bod gwysio dioddefwyr i'r llys yn gam olaf, ac atgyfnerthwyd hyn yn y gwasanaeth yn 2011-12 gan y Cyfarwyddwr.

Yn hanesyddol roeddem yn cyhoeddi gwŷs tyst er mwyn dod â thystion amharod i'r llys. Wedi ei ddefnyddio'n briodol, gall hyn fod yn effeithiol iawn, nid lleiaf oherwydd eu bod yn symud oddi wrth y dioddefwr y dewis o p'un a ddylent fynd i'r llys ai peidio

[20] Achosion aflwyddiannus oherwydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl; dim mynychu neu ble nad yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos

(a gyda hynny, pwynt pwysau a ddefnyddir yn aml gan y sawl sy'n cyflawni trosedd) ac yn lle hynny rhoi dyletswydd arnynt i fynychu.

## Gwasanaethau cefnogol i ddioddefwyr

Mae asesiadau risg a gynhelir gan y gwasanaethau cefnogol a'r heddlu yn helpu i hysbysu penderfyniadau'r erlynydd ar fechnïaeth a diogelwch y dioddefwyr yn ystod y broses cyfiawnder troseddol.

Dangoswyd fod gwasanaethau cefnogol fel Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) yn sicrhau rhagor o ddiogelwch i ddioddefwyr ac yn gwella erlyniadau. Yn 2010-11, dangosodd ymchwil gan Coordinated Action Against Domestic Abuse (CAADA) fod 91 y cant o ddioddefwyr a gefnogwyd gan IDVAs drwy'r broses cyfiawnder troseddol wedi dioddef camdriniaeth gorfforol; mewn 67 y cant o achosion roedd y gamdriniaeth yn ddifrifol, yn cynnwys crogi neu fygu. Roedd hanner y dioddefwyr a aeth i'r llys yn ofni am eu bywydau a chwarter yn ofni y byddai eu plant yn dioddef niwed. Mae'r fath gefnogaeth felly'n hanfodol ar gyfer diogelwch dioddefwyr.

Comisiynodd y CPS CAADA i gynnal dadansoddiad pellach o'u harolwg 2010 o 1,247 o ddioddefwyr. Nid yn unig y cafwyd deilliant llwyddiannus mewn 73 y cant o'r achosion trais domestig ble y cefnogodd IDVA y dioddefwr ond hefyd adroddodd 66 y cant o'r holl ddioddefwyr a gefnogwyd, waeth beth fo deilliant yr achos, derfyn neu leihad mewn trais domestig o ganlyniad.

**IDVA**

Cyhuddwyd achos o ymosodiad difrifol gan y diffynnydd ar ei wraig, ar ôl iddo ei bygwth â chyllell; roedd eu mab yn ei arddegau'n bresennol a gwelodd y digwyddiad. Ar y cychwyn, nid oedd y dioddefwr eisiau mynd ymlaen â'r achos ac roedd yn erbyn erlyn. Cynhaliodd llawer o waith gofalus gan gyfreithiwr y CPS, yr Uned Gofal Tystion a'r IDVA gefnogaeth y dioddefwr i erlyniad, gan arwain at ble euog ar ddiwrnod y treial.

Mae llochesi hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw mewn cefnogi dioddefwyr –

**Llochesi menywod**
Erlynwyd achos yn Llundain a oedd â hanes hir o drais domestig. Roedd y diffynnydd yn rheolaidd yn cam-drin y dioddefwr, ei wraig, yn eiriol a chorfforol. Cafodd ei gwthio lawr y grisiau pan yn feichiog, ei bygwth â chyllell a'i churo'n rheolaidd. Byddai'n ei churo er mwyn cael rhyw â hi, ac roedd hwnnw bob amser yn dreisgar. Cafodd ei churo a'i threisio ym mhresenoldeb eu plentyn. Penderfynodd y cyfreithiwr a oedd yn adolygu er gwaethaf datganiad tynnu'n ôl a wnaethpwyd gan y dioddefwr y byddai er budd y cyhoedd i symud ymlaen â'r treial yn yr achos hwn; ychwanegwyd treisio hanesyddol at y ditiad. Roedd y dioddefwr mewn lloches menywod a llwyddodd yr heddlu/CPS sicrhau ei mynychiad yn y llys heb orfod cael gwŷs, trwy gefnogaeth y lloches. Cafwyd y diffynnydd yn euog a'i ddedfrydu i un mlynedd ar bymtheg o garchar.

## Mesurau arbennig

I gefnogi dioddefwyr sy'n mynychu llys, gellir gwneud cais am 'fesurau arbennig' i ddioddefwyr bregus neu rai sydd wedi'u brawychu[21]. Gall mesurau arbennig gynnwys rhoi tystiolaeth o'r tu ôl i sgrin neu roi tystiolaeth trwy gyswllt fideo byw. Yn 2011-12 mae'r CPS yn cynnal ymchwil ar y mater hwn er mwyn dynodi unrhyw welliannau sydd eu hangen.

**Mesurau arbennig**
Mewn un achos trais domestig yng Nglannau Mersi, rhoddwyd mesurau arbennig pan fu'r achwynydd yn gefnogol gydol yr amser, ond a oedd wedi mynd yn ofidus iawn ar ddiwrnod y treial. Sicrhaodd hyn fod yr achwynydd wedi rhoi tystiolaeth a chafwyd y diffynnydd yn euog o ymosodiad cyffredin a'i alw'n ôl ar drwydded, gyda gorchymyn ataliol penagored.

## Aflonyddu trais domestig

Mae prif adran nesaf yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canllaw stelcio ac aflonyddu newydd i erlynyddion a lansiwyd yn 2010 a data cyffredinol ar droseddau aflonyddu[22].

---

[21] Diffinnir tystion bregus yn adran 16 y Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 fel tystion sydd dan 18 oed; tystion sydd ag anhwylder meddyliol o fewn ystyr y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; tystion sydd â diffygion sylweddol o safbwynt deallusrwydd a gweithredu'n gymdeithasol (yn cynnwys anabledd dysgu); a thystion sydd ag anabledd corfforol neu sy'n dioddef anhwylder corfforol y mae'r llys yn ystyried a allai leihau ansawdd eu tystiolaeth.
Mae tystion 'wedi eu brawychu' yn cael eu diffinio yn adran 17 y Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 fel rhai sy'n dioddef o ofn neu drallod yng nghyswllt rhoi tystiolaeth yn eu hachos. Mae achwynwyr mewn achosion ymosodiad rhywiol yn dystion wedi'u brawychu. Mae dioddefwyr trais domestig, trosedd wedi'i chymell gan hil ac erledigaeth ailadroddus; teuluoedd dioddefwyr lladdiad; a thystion sy'n esgeuluso'u hunain/ niweidio'u hunain neu sy'n hen a bregus hefyd yn dystion wedi'u brawychu. Bydd dioddefwyr a thystion mewn troseddau rhywiol yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig oni bai eu bod yn hysbysu'r llys nad ydynt yn dymuno bod yn gymwys.
[22] Y cafeat yng nghyswllt data trosedd yw:
Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd. Mae'r data'n ymwneud â'r nifer o droseddau a gofnodir mewn llysoedd ynadon, pryd y cychwynnir erlyniad, fel y cofnodir ar y

Yma mae'r troseddau aflonyddu, pryd y cychwynnwyd erlyniad, mewn achosion trais domestig yn cael eu hamlinellu, yn 2010-11:

- Roedd 8,039 trosedd a gyhuddwyd dan S2 Deddf Rhwystro Aflonyddu (PHA) 1997 (o'i gymharu â 7,365 yn 2009-10) gyda 4,822 (60%) wedi'u fflagio fel trais domestig (o'i gymharu â 4,219 yn 2009-10);
- Roedd 2,199 trosedd a gyhuddwyd dan S4 PHA 1997 rhoi pobl mewn ofn trais (o'i gymharu â 2,131 yn 2009-10) gyda 1,423 (65%) wedi'u fflagio fel achosion trais domestig (o'i gymharu â 1,343 yn 2009-10) .

## Dedfrydu

Gall erlynyddion amlygu trais domestig fel nodwedd waethygu ar gyfer dedfrydu, yn ogystal ag arwain y llys yng nghyswllt y gorchmynion ategol sydd ar gael (fel gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, gorchmynion eithrio neu gorchmynion ataliol) a thynnu sylw at achosion perthnasol.

Ym Medi 2009 ymestynnwyd y gyfraith ar orchmynion ataliol i'r holl droseddau troseddol ar euogfarn, ac mewn amgylchiadau penodol ar ryddfarniad. Ers hynny, gosodwyd gorchmynion ataliol mewn llawer o achosion trais domestig (fel yr amlinellwyd mewn rhai o'r astudiaethau achos uchod). Dengys data'r CPS yn 2010-11, fod erlyniad wedi cychwyn mewn 4,055 trosedd o dorri gorchymyn ataliol mewn achosion trais domestig[23]- dyma 68% o'r achosion o dorri gorchmynion ataliol. Roedd hyn yn gynnydd o 1,790 achos o dorri gorchmynion pan gychwynnwyd erlyniad yn 2009-10, neu 61% o'r holl achosion o dorri gorchmynion ataliol.

Hefyd erlynwyd toriadau troseddau gorchmynion sifil. Cychwynnodd 5,281 o doriadau o droseddau gorchmynion peidio ag ymyrryd ar erlyniadau[24] – cynnydd o 5,024 yn 2009-10.

**Torri gorchymyn ataliol**
Mewn un achos yn Sussex, cyhuddwyd y diffynnydd o dorri gorchymyn ataliol a roddwyd gan lys ynadon mewn rhan arall o Loegr, yn rhwystro cyswllt â'i gynbartner, yr oedd ganddo nifer o blant â hi. Gosodwyd y gorchymyn hwnnw fel rhan o'r ddedfryd mewn achos camdriniaeth ddomestig arall yn cynnwys yr un dioddefwr. Roedd y toriad yn cynnwys nifer o negeseuon testun, yn cynnwys drwy ffrindiau, a llawer ohonynt yn ymosodol. Yn ychwanegol, gyrrodd y diffynnydd i gartref y dioddefwr, canu ei chloch, a gyrru heibio. Cafodd ei erlyn yn llwyddiannus a'i ddedfrydu i gyfanswm o 60 diwrnod yn y ddalfa. Hefyd gwnaeth y Llys ef yn destun gorchymyn ataliol llawer ehangach na'r un blaenorol.

---

CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw'r rhai a gyhuddwyd ar unrhyw adeg ac a gyrhaeddodd o leiaf un gwrandawiad - bydd y drosedd hon yn aros wedi'i chofnodi p'un a aethpwyd ymlaen â'r drosedd ai peidio ac nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os mai'r drosedd a gyhuddwyd oedd y cyhuddiad sylweddol yn y diwedd.
Mae'r cafeat hwn yn berthnasol i unrhyw ddata trosedd arall a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn.

[23] Dan Adran 5 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 fel y'i diwygir gan Adran 12 Deddf Trosedd a Dioddefwyr Trais Domestig 2004.

[24] Dan Adran 42A Deddf Cyfraith Teulu 1996 fel y'i diwygir gan Adran 1 Deddf Trosedd a Dioddefwyr Trais Domestig 2004

## Materion cydraddoldeb

**Rhywedd**
Yn 2010-11, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 93%. Cafwyd gwelliant mewn cofnodi rhywedd dioddefwr i fyny i 88% yn 2010-11. I'r rheiny a oedd gyda'u rhywedd wedi'i ddynodi, roedd y gyfran o ddioddefwyr benywaidd yn is o un y cant yn 2010-11, o'i gymharu â 2009-10, ar 84%.

**Ethnigrwydd**
Yn 2010-11, nodwyd bod 76% o ddiffynyddion trais domestig yn perthyn i gategori Prydeinig Gwyn, a chafodd dipyn dros 80% eu categoreiddio yn Wyn (fel yn y flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 6% pellach yn Ddu, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol[25]. Er fod cofnodi dioddefwr ethnigrwydd wedi gwella, mae ychydig dan hanner yn dal heb ei gofnodi ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn

**Oed**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (68%) ac 18-24 (26%). Roedd yn bryder nodi fod 30% o ddiffynyddion (24,667) dan 24, gyda 3,144 (ychydig dan 4%) o ddiffynyddion rhwng 14-17 oed a 219 (0.3%) rhwng 10-13 oed[26]. Mae cofnodi oed dioddefwyr wedi gwella hyd at 77%, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Dangosodd ymchwil gan yr NSPCC yn 2009 fod camfanteisio a thrais mewn perthnasau arddegau yn fwy cyffredin nag a feddyliwyd o'r blaen. Felly, er enghraifft adroddodd dros 75 y cant o genethod gyda phartner hŷn (yn enwedig un "llawer hŷn") eu bod wedi profi trais corfforol.

Nid yw data dioddefwyr y CPS yn ddigon cadarn i ddynodi dioddefwyr dan 18. Yn ychwanegol, ni all systemau data'r CPS ond croes gyfeirio data ar ddiffynyddion a dioddefwyr trwy ddadansoddi achosion ble mae'r baneri ieuenctid a chamdriniaeth plant wedi eu gosod.[27] I archwilio achosion yn cynnwys perthnasau arddegau ymhellach, dadansoddwyd data'r CPS yn yr achosion hyn wedi'u fflagio. O'r data CPS hwn, yn 2010-11 erlynwyd 2,948 o ddiffynyddion ifanc[28] ac roedd 85 yn erbyn dioddefwyr ifanc[29]. Yng nghyswllt dioddefwyr ifanc, roedd 2,489 o ddiffynyddion a erlynwyd gyda dioddefwyr Dan 18.

Roedd erlyniadau cyffredinol yn llwyddiannus i 76% o'r holl diffynyddion ifanc a erlynwyd; yn codi i 78% i'r rheiny gyda dioddefwyr Dan 18. O'r holl diffynyddion gyda dioddefwyr Dan 18, roedd 72% yn llwyddiannus. Mae ymchwil pellach wedi'i gynllunio yn 2010-11.

---

[25] Ni wnaeth ychydig dan 2% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd ar arestiad ac mewn ychydig dros 3% o achosion pellach, ni chafodd ethnigrwydd y diffynnydd ei roi i'r CPS gan yr heddlu – y ddau yn welliant bychan o'r flwyddyn flaenorol.
[26] Roedd 88% o ddiffynyddion dan 18 wedi'u dynodi fel troseddwyr ifanc, troseddwyr ifanc parhaus neu droseddwyr ifanc parhaus blaenoriaeth cyson iawn.
[27] Mewn achosion trais domestig, gofynnir i erlynyddion ddynodi diffynyddion dan 18 fel troseddwyr ifanc, troseddwyr ifanc parhaus neu droseddwyr ifanc parhaus blaenoriaeth cyson iawn a dioddefwyr dan 18 trwy ychwanegu baner 'camdriniaeth plant'.
[28] wedi'u dynodi fel troseddwyr ifanc, troseddwyr ifanc parhaus neu droseddwyr ifanc parhaus blaenoriaeth cyson iawn.
[29] Wedi'u dynodi trwy ddefnyddio baner 'camdriniaeth plant'.

**Camdriniaeth perthynas rhwng pobl ifanc***
Daeth perthynas dau o bobl ifanc dan 18 i ben pan ddechreuodd y dioddefwr weld rhywun arall. Yn ystod y berthynas byddai'r diffynnydd yn gweiddi'n gyhoeddus gyda'r dioddefwr a'i thynnu gerfydd ei gwallt; pan ddaeth y berthynas i ben dechreuodd y diffynnydd ei rheoli fwy. Arferai ddisgwyl amdani tu allan i'r ysgol i weld beth oedd yn wisgo, gyda phwy yr oedd yn siarad ac arferai ofyn i'w ffrindiau a oedd hi'n mynd allan gyda rhywun arall. Byddai'r gofyn i'r dioddefwr beth oedd wedi digwydd yn y berthynas, pam yr aeth o'i lle a pham yr oedd hi wedi ei adael. Ar un achlysur, aeth y diffynnydd yn flin pan na wnâi'r dioddefwr siarad ag ef a gwthiodd y dioddefwr, nes iddi ddisgyn ar y llawr. Tra'r oedd ar y llawr, eisteddodd ar ei phen a rhoi ei ddwylo o amgylch ei gwddf fel na allai anadlu.

Roedd achlysuron eraill pan oedd y diffynnydd wedi bygwth y dioddefwr, weithiau gyda chyllell, ac wedi dyrnio'r dioddefwr. Hefyd anfonodd negeseuon testun ati a negeseuon ar Facebook, yn dweud ei fod am ei lladd. Roedd yn ofni'n fawr beth a allai ei wneud. Nid oedd erioed wedi siarad â neb am yr ymosodiadau ac roedd wedi cuddio ei hanafiadau gyda cholur neu ddillad, fel na fyddai ei rhieni'n gwybod.

Yn y diwedd dywedodd y dioddefwr wrth ffrind sut oedd y diffynnydd wedi bod yn ei thrin, a pherswadiodd ei ffrind hi i alw'r heddlu. Hon oedd ei pherthynas gyntaf ac felly roedd wedi meddwl efallai fod ymddygiad ei chariad yn normal.

Asesodd yr heddlu hwn fel achos risg uchel o drais domestig.

Plediodd y diffynnydd yn euog i gurfa, ABH a bygythiadau i ladd. Cafodd ei ddedfrydu i orchymyn adsefydliad ieuenctid am 2 flynedd, a gorchymyn ataliol i beidio â chysylltu â'r dioddefwr.

** Oherwydd oed y diffynnydd a'r dioddefwr, newidiwyd ychydig ar rai manylion yn yr astudiaeth achos er mwyn cadw'r wybodaeth am bwy ydynt yn gyfrinachol.*

# Aflonyddu

Yn 2010-11:

- Cychwynnodd erlyniad yng nghyswllt 8,039 o droseddau a gyhuddwyd dan S2 PHA 1997 am aflonyddu – cynnydd o 7,365 yn 2009-10;
- Cychwynnwyd 2,199 o erlyniadau dan S4 PHA 1997 – rhoi pobl mewn ofn trais – cynnydd o 2,131 yn 2009-10;
- Cychwynnwyd erlyn 5,922 achos o dorri gorchmyn ataliol[30] - cynnydd o 2,944 yn 2009-10; ac
- arweiniodd 5,281 toriad o droseddau gorchmynion peidio ag ymyrryd at gychwyn erlyniadau[31] – cynnydd o 5,024 yn 2009-10.

Mae'r adran trais domestig uchod yn amlinellu erlyniadau aflonyddu cysylltiedig penodol.

Mae'r CPS yn gweithio ar draws y llywodraeth mewn ymgynghoriad gyda grwpiau gwirfoddol i helpu cyflenwi gwaith ar y cyd ar Stelcio ac Aflonyddu dan Gynllun Gweithredu VAWG Traws Lywodraeth i ddod â thrais i ben.

Lansiodd y CPS y Canllaw Cyfreithiol ar Stelcio ac Aflonyddu ym Medi 2010. Y prif newid i'r canllaw fu i bwysleisio bodolaeth a natur eang natur 'stelcio' fel categori arbennig o aflonyddu, ac i ddynodi'r gwahanol ffyrdd y gall stelcio ddigwydd.

Mae'r rhain yn cynnwys 'seiber-stelcio', trwy ddefnyddio cyfryngau electronig, stelcio grŵp (neu gasgliadol); a chanlyn trwy drydydd partïon ( a elwir yn 'stelcio drwy brocsi'). Trwy wneud hynny, mae hynyncynorthwyo erlynyddion i adnabod rhai mathau o ymddygiad a all, er eu bod yn lefel isel ar ben eu hunain, fod yn rhan o sefyllfa stelcio barhaus a chynyddol, ac felly'n galw am ymateb CJS â mwy o ffocws iddi.

Yn Nhachwedd 2010 cymerodd y CPS ran mewn digwyddiad proffil uchel aml-asiantaeth yn cyflenwi hyfforddiant i'r heddlu a Phwyntiau Sengl o Gyswllt ar gyfer aflonyddu'r CPS (SPOCs) ar adeiladu achos seiber-stelcio ac aflonyddu.

**Seiber-stelcio**
Ym Mawrth 2011 gwnaeth diffynnydd hanes cyfreithiol fel y dyn cyntaf i'w garcharu ym Mhrydain am ddefnyddio blog rhyngrwyd i stelcio menyw. Lluniodd y diffynnydd hyd at 35 blog gwefannau ble'r oedd yn sarhau'r dioddefwr ar ôl iddi orffen eu perthynas fis o hyd.

Cychwynnodd y diffynnydd beledu'r dioddefwr gyda galwadau, e-byst, negeseuon testun a negeseuon dros Facebook y erfyn am gael ei gymryd yn ôl. Dywedodd y buasai'n ffonio'r heddlu a thynhaodd y diogelwch ar y safle rhyngweithio cymdeithasol, a threfnodd i ddileu'r diffynnydd o'i manylion cyswllt.

[30] Dan Adran 5 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 fel y'i diwygir gan Adran 12 Deddf Trosedd a Dioddefwyr Trais Domestig 2004
[31] Dan Adran 42A Deddf Cyfraith Teulu 1996 fel y'i diwygir gan Adran 1 Deddf Trosedd a Dioddefwyr Trais Domestig 2004

Pan gaeodd ei chyfrif Facebook, gosododd y diffynnydd gyfres o flogiau i fyny a oedd yn postio negeseuon amdani “rhybudd i bob dyn’’ ac yn rhestru cysylltiadau i’w wefannau eraill a oedd yn rhoi ei hanes ef o’u perthynas.
Yn 2010 bu i’r diffynnydd osgoi carchar ond cafodd ei wahardd dan orchymyn ataliol oes rhag sôn am y dioddefwr ar unrhyw wefannau ar ôl iddo gyfaddef aflonyddu.

Ddau fis yn ddiweddarach, cafodd ei arestio eto ar ôl iddo bostio neges arall ar ei flog yn rhoi manylion am yr achos llys, ac ar ôl i’r achos llys gael ei gwblhau sefydlodd wefan obsesiynol newydd gydag amryw o dudalennau arni.

Carcharwyd y diffynnydd am 18 wythnos ar ôl iddo gyfaddef torri gorchymyn ataliol.


Mae nifer o Ardaloedd wedi gweithio’n agos â’r heddlu ar aflonyddu. Er enghraifft datblygodd Manceinion Fwyaf Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda’r heddlu ar gyfres o faterion VAW o drais domestig, stelcio ac aflonyddu i briodas dan orfod a throsedd seiliedig ar anrhydedd.

Yn Ebrill 2011 ymunoddtair o Elusennau Stelcio gyda’i gilydd: Protection Against Stalking, Suzy Lamplugh Trust a’r Network for Surviving Stalking, gyda chefnogaeth yr heddlu, i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â natur gyfresol stelcio.

# Treisio

Yn 2010-11, erlynwyd mwy o achosion treisio gyda mwy o ddeilliannau llwyddiannus. Dengys Graff 3 duedd gynyddol erlyniadau ac euogfarnau treisio'r CPS dros y pedair blynedd diwethaf.

**Graff 3: Niferyr erlyniadau ac euogfarnau treisio**




Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion a gyhuddwyd i gychwyn ac sydd wedi'u fflagio fel treisio[32], ond hefyd achosion ble y cafwyd euogfarn am drosedd amgen neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar euogfarnau achosion a gyhuddwyd ac a gafwyd yn euog o dreisio. Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel yr ystadegau cenedlaethol swyddogol am dreisio er mwyn rhoi cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae hyn ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach nag ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny ble'r oedd yr euogfarn derfynol am dreisio.

## Ystadegau cenedlaethol swyddogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Dengys gwybodaeth sydd ar gael gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod 3,071 o ddiffynyddion yn 2010, ar sail[33] prif drosedd, wedi eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon, gyda 3,013 wedi'u traddodi i Lys y Goron am dreial. Yn 2010 cafwyd 1,058 o droseddwyr yn euog o dreisio, gan arwain at gymhareb erlyniad i euogfarn yn 2010 o 34 y cant. Nid yw'r gymhareb hon yn cymryd i ystyriaeth ddiffynyddion a erlynir am dreisio ond sy'n eu cael yn euog yn Llys y Goron am drosedd arall.

[32] Gosodir y faner o gychwyn yr achos; bydd y faner yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiad o dreisio'n cael ei ddiwygio wedi hynny.
[33] Gwybodaeth Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Pan fo mwy nag un drosedd yn cael ei hystyried mewn achos llys neu ddigwyddiad rhybuddio, tybir mai'r drosedd a fyddai/ sydd wedi denu'r deilliant dedfrydu mwyaf llym yw'r Brif drosedd a byddai troseddau eraill yr ymdriniwyd â nhw yn yr achos hwnnw'n cael eu hanwybyddu. Os yw dwy drosedd yn yr un achos yn denu'r un ddedfryd, y drosedd sydd â'r ddedfryd statudol fwyaf a dybir yw'r 'Brif drosedd'.

Yn y wybodaeth sydd ar gael yn adroddiad Y Weinyddiaeth Gyfiawnder "*Providing anonymity to those accused of rape: An assessment of evidence*" ceir manylion am ddeilliannau erlyniadau am dreisio yn 2008. O'r achosion treisio a glywyd yn Llys y Goron yn 2008 ac wedi'u cydweddu â deilliant yn 2008 neu 2009 (h.y. treialon a gwblhawyd):

- cafwyd 58% yn euog o drosedd (roedd 42% yn ddieuog);
    - o'r rhain roedd 33% wedi eu cael yn euog o dreisio;
    - cafwyd 14% pellach yn euog o drosedd rywiol arall;
    - cafwyd 5% yn euog o drosedd dreisgar, a 5% o drosedd dditiadwy arall ac 1% o drosedd ddiannod.

Fel rhan o'u hymgynghoriad ar "*Improvements to the Ministry of Justice statistics*", roedd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnig datrys y prif faterion cysyniadol sydd wedi eu codi gan ddefnyddwyr wrth archwilio cyhoeddiadau ystadegol presennol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys materion yn ymwneud â:

- chyfraddau euogfarnau; a
- mesur y nifer o droseddau ble y cyrhaeddir deilliant.

Cyhoeddir gwybodaeth am erlyniadau ac euogfarnau yn chwarterol gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fodd bynnag, dim ond yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn galendr gyfan y cyhoeddir data lefel manylion trosedd, e.e. treisio, er mwyn sicrhau fod yr holl ddata wedi ei dderbyn a bod y prosesau dilysu wedi'u cwblhau.

## Data rheolaeth perfformiad y CPS

O ddata rheoli achosion y CPS, cafwyd cynnydd o chwech y cant yn y nifer o achosion a anfonwyd ymlaen at y CPS gan yr heddlu i'w cyhuddo gan gyrraedd 8,130 yn 2010-11; cynyddodd y gyfran a gyhuddwyd ychydig i gyrraedd 37%. Fodd bynnag mae cywirdeb fflagio achosion wedi bod yn anwadal dros y flwyddyn, gan gyrraedd 94% erbyn diwedd 2010-11.

O ddata'r CPS, cafodd 3,867 (97%) o achosion a oedd wedi'u fflagio i ddechrau fel treisio eu herlyn yn y diwedd fel y categorïau prif drosedd[34] o 'droseddau rhywiol. gan gynnwys treisio'. neu brif droseddau mwy difrifol o 'laddiad' neu 'droseddau yn erbyn yr unigolyn'. O'r rhain roedd 3,604 am droseddau rhywiol gan gynnwys treisio; saith am laddiad a 256 am droseddau yn erbyn yr unigolyn.

O ddata rheoli achosion y CPS, fel yn nhabl 2, mae'r nifer o ddiffynyddion a erlynir wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf o 10% to 4,208, gydag erlyniadau llwyddiannus[35] yn cynyddu mewn nifer o 9% i 2,465. Foddbynnag, mae'r gyfran o euogfarnau allan o'r holl achosion a erlynwyd wedi gostwng ychydig o 59.4% yn 2009-10 i 58.6% yn 2010-11. Er fod euogfarnau ar ôl treial wedi cynyddu ychydig, mae rhyddfarnau gan reithgor wedi cynyddu – allan o'r holl resymau dros ddeilliannau aflwyddiannus, cynyddodd y rheiny a oedd yn deillio o ryddfarnau o ychydig dan 45% yn 2009-10 i ychydig dan 48% yn 2010-11. Mae'r cynnydd mewn rhyddfarnau gan reithgor yn tueddu i awgrymu efallai fod angen gwneud mwy o waith gyda

[34] Gweler yr adran Geirfa am ddiffiniadau'r CPS o 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau. Mae'r data categori prif drosedd a gofnodir gan y CPS yn y System Rheolaeth Achosion wedi'u tan-gofnodi wrth gymharu â niferoedd erlyniad cyffredinol yn ystod yr un cyfnod. Ni chynhwyswyd deilliannau a arweiniodd at gwblhad gweinyddol neu achosion anghyflawn, ble na ddyrannwyd categori Prif Drosedd.
[35] Deilliannau o gyhuddo i euogfarn.

phartneriaid i ymdrin ag ymwybyddiaeth gyhoeddus a herio mythau a stereoteipiau, sy'n draddodiadol wedi arwain at gyfraddau rhyddfarnau rheithgor uchel mewn achosion rhywiol.

**Tabl 2: Erlyniadau treisio a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | | 2010-11 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 2,021 | 57.7 | 2,018 | 57.7 | 2,270 | 59.4 | 2,465 | 58.6 |
| Aflwyddiannus | 1,482 | 42.3 | 1,477 | 42.3 | 1,549 | 40.6 | 1,743 | 41.4 |
| **Cyfanswm** | **3,503** | | **3,495** | | **3,819** | | **4,208** | |

O'r holl deilliannau aflwyddiannus, gostyngodd y rheiny oherwydd materion dioddefwyr i ychydig dan 14% o 16.5% yn y flwyddyn flaenorol. Credir bod hyn yn adlewyrchu gwell cefnogaeth i ddioddefwyr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda tynnu'n ôl yn disgyn o ychydig dan naw y cant yn 2007-08 i ychydig dan chwech y cant yn 2010-11. Mae'r gyfran o ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr[36], allan o'r *holl* achosion a erlynwyd, wedi gostwng o 6.7% yn 2009-10 i 5.8% yn 2010-11.

## Asesiad ansoddol o achosion treisio

O fis Gorffennaf 2010, cynhaliwyd asesiad Safonau Ansawdd Craidd newydd ar gyfer sampl o'r holl achosion a erlynwyd[37], y mae 3 ffeil fesul uned[38] y flwyddyn yn achosion treisio (dau yn hunan asesu ac un yn cael ei gynnal gan asesydd cyfoed). Aseswyd data o Hydref 2010 i Fawrth 2011– gan ganiatáu amser sefydlu i'r broses yn y tri mis blaenorol. Asesir 12 safon craidd â chyfanswm o 34 o ymrwymiadau, yn cynnwys darparu cyngor, penderfyniadau cyhuddo, mechnïaeth, paratoi achos, cyflwyno achos, materion dioddefwr a thyst, esboniadau penderfyniad a chymorth i'r llys.

Mae cymhariaeth o'r asesiadau o fewn CQSM o achosion treisio gyda'r holl achosion yn awgrymu ymateb cyffredinol tebyg i'r holl ymrwymiadau[39]. Fodd bynnag mae sgoriau ymrwymiad unigol yn dangos rhai gwahaniaethau, a ddefnyddir i hysbysu'r Gwasanaeth am y materion i ymdrin â nhw. Rhwng Hydref 2010- Mawrth 2011, aseswyd 10,391 o achosion; yn gyffredinol roedd 773 yn achosion treisio (7% o'r holl achosion a aseswyd). Aseswyd erlyniadau treisio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer 'sicrhau fod bob peth bosib wedi'i wneud i rwystro deilliannau aflwyddiannus'. Maent hefyd ychydig yn well mewn esbonio penderfyniadau gan gynnwys llythyrau Cyfathrebu Uniongyrchol gyda Dioddefwyr (DCV) o safon uchel ac amserol, sy'n arwydd positif, yng ngoleuni'r ffocws ar y materion hyn ar lefel Ardal. Fodd bynnag mae angen gwella rhai canfyddiadau, e.e. 'sicrhau cyfarwyddyd digonol i adfocadau'.

---

[36] Achosion aflwyddiannus oherwydd dioddefwr yn tynnu'n ôl; dim mynychu neu ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos.
[37] Argymhellir samplo'r sampl misol nodweddiadol o chwe ffeil, pan maent ar gael, yn cynnwys: un ffeil cyngor cynnar; un o waredu tu allan i'r llys; un ple euog a gwblhawyd; un achos treial a gwblhawyd a dau achos treial byw.
[38] Roedd oddeutu 175 uned yn delio ag achosion treisio yn 2010-11.
[39] Cyfrifir sgôr â phwysau i'r lefel o ymrwymiadau sy'n cael eu cwrdd; i bob achos mae'r sgôr yn 0.84 i achosion treisio 0.83.

Defnyddir y canfyddiadau hyn ar lefel Ardal i hysbysu ble y gellir gwneud gwelliannau yn ansawdd yr erlyniadau.

O Ionawr 2011, dechreuodd Ardaloedd broses sicrhau ansawdd fanylach ar gyfer oddeutu chwarter o'u hachosion. Mae Cydlynwyr VAWG ar lefel leol yn asesu ymgynghoriad cynnar gyda'r heddlu; dyrannu achosion i arbenigwyr treisio; digwyddiadau o ddim gweithredu pellach yn cael ei gymryd; cyfarwyddiadau i, cynhadledd gyda, ac adroddiadau gan gwnsler a materion dioddefwyr fel mesurau arbennig, y cyfle i gyfweld tystion cyn y treial, a llythyrau DCV. Yn Ebrill 2011 rhoddodd y cydlynwyr yr asesiad cyntaf o achosion i'r Prif Swyddog Gweithredu a'r DPP er mwyn helpu dynodi materion ym mhob Ardal ble byddant yn ffocysu gwelliannau i'r dyfodol.

**Gwell ansawdd erlyniadau treisio**
Mewn achos treisio o Essex, cyfrannodd ymgynghoriad cynnar gyda'r heddlu, cyfweliad tyst cyn-treial rhwng y dioddefwr a chydlynydd treisio'r ardal, a chyfarfod arbennig mesurau cynnar at erlyniad llwyddiannus a arweiniodd at euogfarn. Cynhaliwyd y treial am dreisio ac ymosod trwy dreiddiad yn 'fewnol' gan Uwch Adfocad y Goron y CPS.

Roedd y diffynnydd a'r achwynydd mewn parti teuluol. Roeddynt yn adnabod ei gilydd yn dda oherwydd roedd y diffynnydd yn ffrind agos i frodyr yr achwynydd. Syrthiodd yr achwynydd i gysgu ar y soffa a gadawyd hi i gysgu pan adawodd y teulu neu fynd i'w gwelyau. Deffrodd yr achwynydd o gwsg trwm i ganfod y diffynnydd yn treiddio i'w fagina gyda'i fysedd ac yna ei bidyn. Yna cododd a gadael yr eiddo.

Arestiwyd y diffynnydd a'i gyfweld a dywedodd fod cyfathrach rywiol wedi digwydd ond ei fod yn gydsyniol a'u bod wedi syrthio i gysgu gyda'i gilydd. Wrth herio hyn, roedd yr erlyniad yn llwyddiannus a dedfrydwyd y diffynnydd i bedair blynedd a hanner yn y carchar ac i lofnodi'r Gofrestr Troseddwyr Rhyw am oes.

Mae arfer dda arall i'w rannu oddi mewn i'r CPS yn cynnwys taflen dioddefwr treisio bwrpasol a llyfryn ôl ofal yng Nghaint ochr yn ochr â fforwm i ddioddefwyr treisio. Mae nifer o Ardaloedd, fel Sussex a Dyffryn Tafwys wedi datblygu eu templed eu hunain ar gyfer ei ddefnyddio â llythyrau DCV, gyda chyngor gan grwpiau arbenigol lleol. Mae Gorllewin Mersia wedi datblygu llythyr penodol gan y CPS i ddioddefwyr (wedi'i ddylunio gydag ISVAs) yn dynodi'r tîm CPS a chynnig cynhadledd i gwrdd â'r cwnsler a thrafod mesurau arbennig, a ddilynir i fyny gan y swyddog cydlynu heddlu lleol.

## Unedau treisio a throseddau rhywiol difrifol (RASSO)

Cynhaliwyd gwerthusiad o dair uned RASSO yng Ngorllewin Swydd Efrog, Glannau Mersi a Hampshire, yn 2010-11 gyda chefnogaeth Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), a arweiniodd at adroddiad i Brif Erlynyddion y Goron i'w cynorthwyo i benderfynu ar y ffordd orau o ymdrin ag achosion treisio'n lleol. Hefyd cefnogodd y CPS Raglen Cefnogaeth Treisio ACPO yn ei gwerthusiad o unedau arbenigol RASSO lluoedd yr heddlu.

**Unedau RASSO; tîm undod**
Cyflwynodd tîm ar y cyd rhwng yr heddlu a thîm treisio undod y CPS yng Nglannau Mersi ffordd newydd o weithio rhwng ymchwilwyr treisio ac erlynyddion ac mae eisoes wedi gweld cynnydd yng nghyfraddau euogfarnau ar gyfer ymosodiadau yn benodol yn erbyn gweithwyr rhyw yn Lerpwl, diolch i dditectifs yn gweithio'n agos â gweithwyr ymestyn allan yn Armistead Street, sefydliad a ariennir gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Lerpwl sy'n rhoi cefnogaeth a chyngor i weithwyr rhyw y ddinas.

## O gyhuddo i'r llys

Cyhoeddodd y DPP gyfres o fesurau wedi'u dylunio i gryfhau erlyniadau treisio yn Rhagfyr 2010. Roedd y rhain yn cynnwys dull 'seiliedig ar deilyngdod' i erlyniadau treisio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i erlynyddion ddelio'n effeithiol â mythau a stereoteipiau, fel y rheiny sy'n ymwneud â chydsyniad neu yfed alcohol, wrth benderfynu p'un a oes rhagolygon realistig neu beidio o sicrhau euogfarn ac i anwybyddu unrhyw ragfarnau sydd o bosib gan gymdeithas.

**Dull seiliedig ar deilyngdod**
Dengys achos o Orllewin Swydd Efrog y pwysigrwydd fod erlynyddion yn defnyddio'r dull 'seiliedig ar deilyngdod'. Treisiodd y diffynnydd ferch feddw ar ôl noson allan yng nghanol tref. Roedd hon yn enghraifft dda o fynd ar ôl achos ble'r oedd yr achwynydd yn feddw ac ddim yn cofio'r digwyddiad yn glir. Y mater oedd cydsyniad – dywedodd y diffynnydd ei fod yn credu mai putain oedd hi. Roedd y dystiolaeth gan gamerâu pen yn hynod werthfawr i ddangos gofid ac anafiadau'r dioddefwr pan adroddwyd i'r heddlu. Fe'i cafwyd yn euog yn dilyn treial am dreisio a'i ddedfrydu i ddedfryd benagored er diogelwch y cyhoedd.

Ymdriniodd achos o Northumbria â materion cydsyniad yng ngoleuni tystiolaeth o feddwdod. Cyfeiriodd yr erlyniad at R v Bree (achos pryd y rhoddodd y Llys Apêl ganllaw ar fater y gallu i gydsynio pan yn feddw). Roedd y diffynnydd wedi cynnig rhoi lifft adref i fenyw feddw a threisiodd hi ar y siwrnai. Y bore canlynol deffrodd gyda chleisiau ar ei rhannau cenhedlol, adrodd ar hyn i'r heddlu a chafodd ei chyfeirio at wasanaeth treisio arbenigol. I ddechrau honnodd y diffynnydd fod yr holl weithgaredd rywiol wedi digwydd â chydsyniad a phlediodd yn ddieuog, ond newidiodd ei ble cyn y treial.

Hefyd gwnaeth y DPP ymrwymiad i wella ansawdd y cyfathrebu gyda dioddefwyr treisio. Mewn llythyr wedi'i gyfeirio at yr holl erlynyddion arbenigol treisio atgoffodd nhw o ganllaw diweddar ar gyfathrebu priodol ac effeithiol yn dilyn tor parhad achos, a gyflwynwyd fel rhan o ymateb y CPS i Adolygiad Stern.

## Gwyrdroi cwrs cyfiawnder

Cyhoeddodd y DPP y byddai angen cymeradwyaeth y DPP i unrhyw gyhuddiad o wyrdroi cwrs cyfiawnder yn erbyn unigolyn a oedd wedi tynnu'n ôl honiad o dreisio.

Hefyd cyhoeddodd broses o ymgynghoriad gyda phartïon â diddordeb sydd ag arbenigedd yn y maes, i helpu hysbysu canllaw cyfreithiol newydd ar y mater - "*"Legal guidance on Perverting the course of justice – Charging in cases involving rape and/or domestic violence allegations",* a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2011. Mae'r canllaw yn gwahaniaethu'n glir rhwng honiad ffug, tynnu cwyn yn ôl a tynnu'n ôl dwbl (pan fo dioddefwr yn tynnu'n ôl wrthdyniad o'r gŵyn wreiddiol). Mae'n rhoi enghreifftiau o'r rhesymau pam y gallai rhywun dynnu'n ôl honiad gwir ac yn pwysleisio'r angen i archwilio'r materion hyn yn sensitif.

Yng Ngorffennaf 2011 ymestynnwyd yr angen am gymeradwyaeth y DPP mewn achosion o wyrdroi cwrs cyfiawnder i gynnwys y rheiny a oedd wedi tynnu'n ôl honiad o dreisio *neu drais domestig*.

## Erlynyddion arbenigol treisio hyfforddedig ac aelodau'r Bar

Ymdrinnir â holl erlyniadau treisio yn y CPS gan erlynyddion arbenigol treisio hyfforddedig, y cydnabuwyd eu gwaith gan y Farwnes Stern wrth ymchwilio i'w hadroddiad ar y modd mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn ymdrin ag achosion treisio. Erbyn Mawrth 2011, roedd 894 o arbenigwyr wedi derbyn hyfforddiant RASSO, wedi ei gyflenwi'n unol â gweithrediad yng Nghynllun Gweithredu VAWG y CPS 2008-11. Mae nifer o Ardaloedd yn cynnal Paneli Craffu Treisio.

**Dioddefwyr bregus**
Mae dau achos yn dangos gwell erlyniadau achosion gyda dioddefwyr bregus. Yr achos cyntaf oedd o ddieithryn yn treisio merch ifanc 20 oed a oedd â diagnosis o sgitsoffrenia ac anawsterau personoliaeth cymhleth. Hwyluswyd ei thystiolaeth gan ganolwr cofrestredig. Cymerodd y rheithgor lai na 50 munud i gael y diffynnydd yn euog o dreisio. Cafodd ei ddedfrydu i 7 mlynedd o garchar.

Roedd yr ail achos yn cynnwys treial ar y cyd o ddwy drosedd o wahanol fwrdeistrefi. Sail achos yr erlyniad oedd fod y diffynnydd yn targedu dioddefwyr bregus yn benodol – roedd gan un anawsterau dysgu ac weithiau roedd yn cael rhyw am arian gyda dynion eraill; roedd yr ail yn weithiwr rhyw.

Petai mythau a stereoteipiau cyffredin yn cael eu defnyddio, gallai'r ddau gael eu gweld fel pobl oedd â materion hygrededd. Cafwyd y diffynnydd yn euog ar ôl treial.

Cafwyd nifer o geisiadau am achrediad y CPS o gyrsiau a redir yn allanol i aelodau'r Bar yn ystod 2010-11. Yn gyffredinol mae'r rhain yn cynnwys mewnbwn gan y CPS, gan gynnwys, ar sawl achlysur, sesiwn wedi ei chyflenwi gan Brif Ymgynghorydd Cyfreithiol y CPS, ar 'ddull seiliedig ar deilyngdod' o erlyn treisio. Yn ogystal ag apelio at aelodau o'r Bar hunangyflogedig (y mae rhaid iddynt fynychu cwrs achrededig bob pedair blynedd er mwyn cymhwyso i erlyn treisio), mae'r cyrsiau hyn hefyd yn denu

rhai erlynyddion CPS sy’n dymuno ymestyn eu sgiliau a gwybodaeth tu draw i’r hyfforddiant mewnol a gawsant.

## Gwasanaethau cefnogol i ddioddefwyr

Mae cefnogaeth i ddioddefwyr treisio drwy Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) wedi bod yn allweddol mewn rhai o’r achosion mwyaf cymhleth.

**Cefnogaeth gan ISVAs gydag unedau RASSO arbenigol**
Mae ISVA arbenigol sy’n gweithio yng Nglannau Mersi gyda gweithwyr rhyw wedi helpu gwella’r erlyniad o achosion treisio yn cynnwys gweithwyr rhyw a’u diogelwch. Erbyn Mawrth 2011, ar ôl dim ond tri mis, roedd pedwar diffynnydd peryg yn y carchar am ymosod ar o leiaf ddeg o fenywod.

Yn un o’r achosion erlynwyd diffynnydd am dreisio gweithiwr rhyw ym Medi 2010, a thrwy ddefnyddio cynllun newydd o’r enw ‘Ugly Mugs’, adnabu’r heddlu ddioddefwr blaenorol o ymosodiad rhywiol a charcharu’n groes i ewyllys. Roedd achos treisio cynharach o 2006 wedi cael y diffynnydd yn ddieuog, yn dilyn codi braw ar y dioddefwr. Fodd bynnag cytunodd y dioddefwr yn yr achos cynharach i fynd i’r llys i roi 'tystiolaeth o ffaith debyg’ neu 'gymeriad drwg'. Plediodd y diffynnydd yn euog i dreisio ac er na wnaeth gyfaddef yr ymosodiad rhywiol a charcharu’n groes i ewyllys, bwydodd yr ISVA y wybodaeth yn ôl i’r dioddefwr, a oedd yn fodlon â’r deilliant. Mae’r tair menyw a oedd yn weithwyr rhyw yn awr wedi gadael gwaith rhyw ar y stryd; mae dwy yn gwbl rydd o gyffuriau (un ar ail gam adsefydlu) ac mae un ar raglen lleihau methadon. Bydd y diffynnydd ar y gofrestr troseddwyr rhyw am oes.

Parhaodd y CPS i weithio’n agos gyda’i asiantaethau partner yn 2010-11. Roedd hyn yn cynnwys, gyda Thîm Cefnogaeth Genedlaethol yr Adran Iechyd– Ymateb i Drais Rhywiol – cynorthwyo ardaloedd i ddatblygu Canolfannau Cyfeirio Ymosodiad Rhywiol (SARCs) neu, ble maent eisoes yn bodoli, sicrhau darpariaeth y prif elfennau. Yn ychwanegol gweithiodd y CPS fel rhan o’r Grŵp Monitro Treisio yn dylunio cyfres o fesurau i gefnogi lluoedd yr heddlu ac ardaloedd y CPS i asesu ei perfformiad yng nghyswllt treisio.

## Materion cydraddoldeb

**Rhywedd**
Yn 2010-11, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 99%. Bu i gofnodi rhywedd dioddefwr wella i fyny at 72% yn 2010-11, ond nid yw’n ddigon cadarn i’w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Ethnigrwydd**
Yn 2010-11, dynodwyd fod 60% o ddiffynyddion trosedd treisio’n perthyn i’r categori Gwyn Prydeinig a dipyn dros 66% yn cael eu categoreiddio’n Wyn (un y cant uwch na’r flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 8% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 13% pellach yn

Ddu, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol[40]. Nid yw ethnigrwydd wedi ei gofnodi mewn ychydig dan 74% o ddioddefwr, felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Oed**


Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (60%) ac 18-24 (22%). Roedd yn bryder nodi fod bron i draean o ddiffynyddion (1,290) dan 24, gyda 319 (ychydig dan 8%) o ddiffynyddion rhwng 14-17 oed a 48 (dipyn dros 1%) rhwng 10-13 oed. Mae cofnodi oed dioddefwyr wedi gwella hyd at 65%, ond nid yw'n ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

[40] Ni wnaeth ychydig dros 5% o ddiffynyddion ddatgan eu hethnigrwydd ar arestiad ac ni ddynododd yr heddlu ethnigrwydd y diffynnydd i'r CPS mewn ychydig dan 4% o achosion – y ddau yn welliant bychan o'r flwyddyn flaenorol.

# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Cafwyd tuedd gynyddol mewn erlyniadau ac euogfarnau o droseddau rhywiol, ac eithrio treisio, yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, fel y dengys Graff 4 isod.

**Graff 4:** **Nifer o erlyniadau ac euogfarnau troseddau rhywiol**




O ddata'r CPS, fel yn Nhabl 3, mae'r nifer o ddiffynyddion a erlynir wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf o 11% gan gyrraedd 8,862, gydag erlyniadau llwyddiannus[41] yn cynyddu o 9% gan gyrraedd 6,588, a'u cyfran yn gostwng ychydig i 74% o erlyniadau troseddau rhywiol.

**Tabl 3:** **Erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2007-08 | | 2008-09 | | 2009-10 | | 2010-11 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 5,976 | 73.5 | 5,955 | 75.1 | 6,060 | 76.0 | 6,588 | 74.3 |
| Aflwyddiannus | 2,154 | 26.5 | 1,979 | 24.9 | 1,912 | 24.0 | 2,274 | 25.7 |
| **Cyfanswm** | **8,130** | | **7,934** | | **7,972** | | **8,862** | |

## Materion cydraddoldeb[42]

**Rhywedd**
Yn 2010-11, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn ddynion, sef 97%, un y cant yn fwy nag yn 2009-10.

[41] Deilliannau o gyhuddo i euogfarn
[42] Mae'r data ar ddioddefwyr yn dod gan y Gwasanaeth Rheolaeth Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan fod y wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel diffynnydd yn unig.

**Ethnigrwydd**
Yn 2010-11, roedd 68% o ddiffynyddion troseddau rhywiol wedi'u dynodi'n perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac ychydig dan 74% wedi eu categoreiddio'n Wyn (yn debyg i'r flwyddyn flaenorol). Dynodwyd 8% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 6% pellach yn Ddu, ffigyrau tebyg i'r flwyddyn flaenorol[43].

**Oed**
Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed (65%) ac 18-24 (17%).
Fel gyda'r data treisio, roedd yn bryder nodi fod bron i chwarter o ddiffynyddion (2,097) dan 24, gydag ychydig dan 6% o ddiffynyddion (484) rhwng 14-17 oed a dipyn dros 1% (113) rhwng 10-13 oed.

Mae nifer o Ardaloedd yn cynnwys yr holl droseddau rhywiol (SO) yn eu gwaith lleol ar dreisio. Er enghraifft, mae Dyffryn Tafwys yn cynnwys SO yn eu grŵp llywio rhyngasiantaethol i ddarparu mwy o graffu ar ddeilliannau anffafriol a chynnwys gweithrediadau mewn cynllun gweithredu treisio. Hefyd yn lleol mae'r CPS yn ymwneud â dosbarth meistr ymchwilio i droseddau rhywiol.

[43] Ni nododd ychydig dan 6% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar arestiad, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 4% o ddiffynyddion gan yr heddlu i'r CPS – yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

# Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd a llurgunio organau rhywiol menywod

## Priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd

Yn Ebrill 2010 cychwynnodd y CPS fflagio erlyniadau priodas dan orfod a thrais seiliedig ar anrhydedd er mwyn monitro erlyniadau. Ystyrir perfformiad dan gyfundrefn sicrwydd newydd VAWG gan Grwpiau ac adroddir i'r Prif Swyddog Gweithredu, a chymerir camau ble bo angen.

Yn 2010-11 erlynwyd 41 achosion o briodas dan orfod (FM), gydag ychydig dan 50% yn llwyddiannus. Ar gyfer achosion trais seiliedig ar anrhydedd (HBV), erlynwyd 234 o achosion ac yr oedd 52% yn llwyddiannus. Fel gydag unrhyw system monitro newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei defnydd cywir. Mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data'n ofalus felly yn ystod y flwyddyn gyntaf hon.

Mae'r CPS wedi dethol erlynyddion arbenigol FM a HBV sydd wedi'u hyfforddi mewn mesurau i wella diogelwch dioddefwyr ac ymgysylltiad dioddefwyr mewn erlyniadau. Cafodd yr hyfforddiant ei wella'n fawr drwy gyfraniadau gan asiantaethau arbennig sy'n cefnogi dioddefwyr priodas dan orfod. Cyhoeddwyd canllaw cyfreithiol ym Mawrth 2010 i gynorthwyo erlynyddion wrth gyhuddo ac erlyn achosion yn cynnwys FM a HBV.

Mae gweithio rhyngasiantaethol yn elfen allweddol o waith y CPS. Ar lefel genedlaethol rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi[44], Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a phanel arbenigol o asiantaethau gwirfoddol allweddol, i godi ymwybyddiaeth a chynorthwyo dioddefwyr HBV/FM.

Mae nifer o Grwpiau/Ardaloedd wedi ffocysu ar wella ymgysylltiad cymunedau – er enghraifft, mae gan yr ardal Ddwyreiniol banel craffu HBV; mae Glannau Mersi a Swydd Gaer wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol ac ysgolion ac mae Hampshire wedi datblygu grŵp strategol HBV yn cynnwys yr heddlu, a grwpiau iechyd a sector wirfoddol. Fodd bynnag mae rhai Ardaloedd yn cydnabod adrodd isel neu ddim adrodd ar y troseddau hyn, ac maent yn anelu felly at weithio gyda chymunedau lleol. Er enghraifft mae'r De Orllewin yn cydgysylltu â grwpiau cymunedol lleol i ddynodi unrhyw rwystrau i adrodd.

[44] O 1 Ebrill 2011, bydd Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn integreiddio i ffurfio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi.

**Ymgysylltiad cymunedol; FM a HBV**
Cynhaliodd Glannau Mersi a Swydd Gaer ddwy gynhadledd FM a HBV yn 2010-11. Yn dilyn materion a godwyd gan fenywod ifanc mewn ysgolion lleol, hefyd sefydlasant Grŵp Llywio FM aml-asiantaeth, datblygu protocol a rhaglen hyfforddiant FM a datblygu taflen i gyfeirio aelodau'r gymuned ac ymarferwyr at y gwasanaethau cefnogol priodol. Arweiniodd y gwaith hwn at i'r Heddlu ymchwilio i'w hachos Priodas dan Orfod cyntaf, gan wneud ceisiadau llwyddiannus am eu Gorchmynion Diogelwch Priodas dan Orfod cyntaf, a chysylltu â'r CPS am wybodaeth a chyngor cyhuddo.

Yn 2011 roedd cynrychiolydd o'r CPS yn brif siaradwr yn y gynhadledd HBV/FM gyntaf yn yr UD yn Efrog Newydd. Ym Mawrth 2011 rhoddodd y CPS gyflwyniad trwy gynhadledd fideo i heddlu Canada ac erlynyddion y Goron ar erlyniadau achosion HBV yn y DU.

**Diogelwch tystion**
Yn Rhagfyr 2010, dedfrydwyd pum diffynnydd yng Nghaerdydd am herwgipio a charcharu'n anghyfreithlon mewn trosedd seiliedig ar anrhydedd. Roedd merch a'i phartner wedi symud i Gymru o Orllewin Canolbarth Lloegr er mwyn dianc rhag ei theulu a oedd yn anghymeradwyo'r berthynas. Llwyddodd teulu'r ferch i'w chanfod yno a herwgipiasant ei phartner, gan ei garcharu yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, ymosod yn gorfforol arno a bygwth ei ladd ef a'i deulu tu allan i'r DU. Dynodwyd yr achos fel 'trosedd anrhydedd' ac roedd yn glir fod y diffynyddion wedi cyflawni'r troseddau hyn yn y gred eu bod yn diogelu ' anrhydedd y teulu'.

Cafodd y dioddefwyr/tystion ddiogelwch tyst a rhoddwyd mesurau arbennig iddynt roi eu tystiolaeth trwy gyswllt fideo. Roedd yr achos yn ei gwneud yn ofynnol ar i'r cyfreithiwr a oedd yn adolygu ymdrin â swmp mawr o dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth ffôn a CCTV, a hefyd roedd angen sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth o'r materion a godwyd gan yr achosion a elwir yn rhai 'seiliedig ar anrhydedd'.

Rhoddwyd pum mlynedd o garchar i'r tad a dwy flynedd a hanner i aelodau eraill o'r teulu.

Mae Swydd Gaerhirfryn, Manceinion a Llundain i gyd wedi delio â nifer o achosion priodas dan orfod a HBV. Deliodd Sussex yn dda gyda nifer o achosion priodas dan orfod. Hefyd deliodd Dyffryn Tafwys, De Swydd Efrog a Gorllewin Canolbarth Lloegr gyda nifer o achosion HBV. Roedd Ardaloedd yn cydnabod pwysigrwydd o weithio'n agos â grwpiau cefnogol Du a Lleiafrif Ethnig (BME) er mwyn sicrhau diogelwch i'r dioddefwyr yn ogystal â'u presenoldeb yn y llys.

**Trais yn seiliedig ar anrhydedd; gweithio gyda grwpiau cefnogol**
Dioddefodd mam sengl ymosodiad cyffredin ac ymddygiad bygythiol gan ddiffynnydd yn honni ei bod yn 'dwyn anfri' ar ei chymuned am nad oedd yn briod. Cafodd ei ddedfrydu i waith di-dâl yn y gymuned am yr ymddygiad bygythiol a gorchymyn ataliol pum mlynedd yn ei wahardd rhag cysylltu â'r dioddefwr mewn unrhyw ffordd.

Gwnaeth Adfocad y Goron sylw am ddewrder y dioddefwr wedi hynny yn y wasg leol a galw ar i eraill yn y gymuned ddod ymlaen am ddiogelwch. Drwy gydol yr achos, gweithiodd y CPS yn agos gyda grŵp cefnogol BME ac yn awr mae'n edrych ar ffyrdd o weithio gyda nhw i adeiladu hyder yn System Cyfiawnder Troseddol o fewn cymunedau amrywiol yr Ardal.

Mae Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi dangos peth arfer dda mewn erlyn achosion HBV. Mewn achosion priodol, ceisiwyd tystiolaeth gefnogol yn eang, fel CCTV, cysylltiadau ffôn, negeseuon testun, lleoliad ffonau symudol, ac olion bysedd. Roedd yr achosion cyn cynnwys sbectrwm o laddiad i ymosodiad cyffredin a llosgi bwriadol i ddifrod troseddol.

**Adeiladu achos rhagweithiol** – Dipyn cyn hanner nos, aeth grŵp o ddynion ifanc i dŷ teras a defnyddio bomiau petrol cartref i gynnau tân yn y cyntedd ac ar y grisiau. Ymledodd y tân yn gyflym a dechreuodd y deiliaid, a oedd i fyny grisiau yn eu gwelyau, ddianc trwy neidio o ffenestr llofft. Achosodd agor y ffenestr i belen o dân gael ei chreu, a ysgubodd i fyny'r grisiau a dal y plentyn ieuengaf 6 oed mewn ystafell wely. Er iddi gael ei hachub, dioddefodd losgiadau o 85%, a bu farw. Digwyddodd hyn oherwydd fod bachgen 16 oed o'r teulu wedi ffurfio cyfeillgarwch gyda merch 15 oed ac roedd ei theulu'n anghymeradwyo.

Gadawodd dau o'r dynion ifanc y wlad yn fuan wedyn; mae un yn dal yn rhydd tra bo'r llall wedi ei arestio a'i erlyn. Roedd tystiolaeth yn yr achos yn amgylchiadol a chymhleth. Roedd yn cynnwys dadansoddiad eang o leoliadau ffonau symudol gyda chysylltiadau ffôn rhwng y dynion y credir a oedd yn gyfrifol, ynghyd â dadansoddiad o gyfansoddion petrol, CCTV byr o garej gyfagos ac ôl bysedd ar botel laeth a oedd ag olion petrol ynddi. Yn dilyn erlyniad llwyddiannus, dedfrydwyd y diffynnydd i 11 mlynedd o garchar.

Roedd y rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â pherthynas nad oedd teulu'r dioddefwr yn ei chymeradwyo. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd parodrwydd gan y dioddefwr a'u teulu i gefnogi achos drwy'r llys – efallai fod hyn yn dilyn codi ymwybyddiaeth yn y gymuned. Mae Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi ymgysylltu gyda chymunedau lleol, cynnal cynadleddau, cyhoeddi taflenni a chynnwys grwpiau menywod BME Ar Baneli Craffu VAWG. Mae'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol (EDCEM) lleol wedi sicrhau fod erlynyddion lleol yn cysylltu ag arbenigwyr cymunedol.

**Trais yn seiliedig ar anrhydedd**
Gadawodd dioddefwr Asiaidd ei chariad Asiaidd a ffurfio perthynas gyda dyn Du. Yr oedd ei theulu'n anghymeradwyo. Bu'n destun i drais domestig tra'r oedd yn y berthynas gyda'i chariad Asiaidd. Dioddefodd hi a'i chariad newydd fygythiadau i ladd yn eu cyfeiriad newydd, wedi eu hatgyfnerthu gan bresenoldeb cyllell. Dedfrydwyd y diffynnydd i 8 wythnos o garchar am ymosodiad cyffredin, 36 wythnos o garchar am fygwth lladd; y ddwy ddedfryd wedi eu gohirio am 12 mis; gyda 12 mis cyfredol o oruchwyliaeth a phresenoldeb mewn rhaglen troseddwyr arbennig o 120 o oriau. Neilltuwyd yr achos i'r barnwr dedfrydu i'w gyfeirio'n ôl petai'n torri'r amodau.

**Llurgunio Organau Rhywiol Menywod**

Datblygwyd canllaw cyfreithiol ar Lurgunio Organau Rhywiol Menywod (FGM) yn ystod 2010-11 i gynorthwyo erlynyddion i ddeall y cefndir a heriau pan yn erlyn achosion yn cynnwys FGM, a chafodd ei gyhoeddi ym Medi 2011. Mae drafft newydd y canllaw cyfreithiol yn diffinio FGM, ac yn cyfeirio at yr heriau y gall erlynydd eu wynebu i ddod ag achos i'r llys, yn enwedig pan fo'r dioddefwr yn debygol o dynnu ei thystiolaeth yn ôl oherwydd pwysau cymdeithasol a diwylliannol.

Er fod Deddf 2003 wedi bod mewn grym ers chwe blynedd, ni chafwyd unrhyw erlyniadau hyd yn hyn. Mae nifer o ffactorau sy'n effeithio ar erlyniadau sy'n gysylltiedig â FGM. Ar adeg y llurgunio, efallai fod y dioddefwyr yn rhy ifanc a bregus neu ormod o ofn adrodd ynghylch y troseddau neu roi tystiolaeth mewn llys.

Bwriedir Deddf 2003 i helpu rhwystro FGM rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod hyn wedi cael peth effaith ataliol. Byddai erlyniad llwyddiannus yn anfon neges hyd yn oed cryfach ynghylch pa mor annerbyniol yw'r arfer.

Tan 2011 nid oedd canllaw cyfreithiol penodol ar FGM, ac roedd y CPS wedi cynnwys FGM oddi mewn i'n polisi, canllaw a hyfforddiant trais domestig. Mae'r CPS hefyd wedi cyfrannu at Grŵp Llywio FGM traws-lywodraeth, i ddynodi a chynhyrchu offerynnau ymarferol i gynorthwyo dioddefwyr a dioddefwyr potensial i ymdrin ag FGM.

Mae'r dull cydlynol sydd wedi ei ddefnyddio gan y Llywodraeth i ymdrin ag FGM wedi bod yn llwyddiannus mewn tynnu at ei gilydd, cydlynu a gyrru gwaith gan y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, yr Adran Addysg a'r Adran Iechyd. Trwy edrych tu draw i seilos adrannol traddodiadol, gwnaethpwyd cynnydd sylweddol mewn codi ymwybyddiaeth o FGM a chefnogi swyddogion proffesiynol i ymyrryd. Yn 2010, lansiodd y Llywodraeth ganllaw consylaidd i Lysgenadaethau Prydain ac Uwch Gomisiynau er mwyn codi ymwybyddiaeth o FGM a helpu sicrhau fod genethod a menywod Prydeinig dramor yn cael eu diogelu rhag niwed.

# Camdriniaeth plant

Yn data 2010-11 gan y CPS ar gamdriniaeth plant, gwelwyd fod nifer llai o erlyniadau lladdiad plant yn 2010-11, gyda chynnydd cyfrannol mewn deilliannau llwyddiannus. Cafwyd cynnydd yn y nifer o droseddau yn erbyn yr unigolyn a erlynwyd, gyda chynnydd mewn deilliannau llwyddiannus. Hefyd cynyddodd erlyniadau troseddau rhywiol gyda gostyngiad bychan mewn deilliannau llwyddiannus yn 2010-11. Ceir manylion pellach yn Nhabl 4[45].

**Tabl 4: Erlyniadau camdriniaeth plant**

| **A Lladdiad** | **Euogfarnau** | | **Aflwyddiannus** | | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | |
| **2006-2007** | 25 | 83.3% | 5 | 16.7% | **30** |
| **2007-2008** | 20 | 69.0% | 9 | 31.0% | **29** |
| **2008-2009** | 33 | 75.0% | 11 | 25.0% | **44** |
| **2009-2010** | 33 | 82.5% | 7 | 17.5% | **40** |
| **2010-2011** | 24 | 88.9% | 3 | 11.1% | **27** |

| **B Troseddau yn erbyn yr unigolyn** | **Euogfarnau** | | **Aflwyddiannus** | | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | |
| **2006-2007** | 1,668 | 72.0 | 649 | 28.0 | **2,317** |
| **2007-2008** | 1,686 | 72.1 | 651 | 27.9 | **2,337** |
| **2008-2009** | 1,514 | 72.9 | 563 | 27.1 | **2,077** |
| **2009-2010** | 1,896 | 72.4 | 723 | 27.6 | **2,619** |
| **2010-2011** | 2,186 | 74.0 | 767 | 26.0 | **2,953** |

| **C Troseddau rhywiol** | **Euogfarnau** | | **Aflwyddiannus** | | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | |
| **2006-2007** | 2,660 | 69.2 | 1,182 | 30.8 | **3,842** |
| **2007-2008** | 2,841 | 72.1 | 1,100 | 27.9 | **3,941** |
| **2008-2009** | 3,011 | 74.7 | 1,018 | 25.3 | **4,029** |
| **2009-2010** | 3,133 | 75.7 | 1,004 | 24.3 | **4,137** |
| **2010-2011** | 3,549 | 74.1 | 1,243 | 25.9 | **4,792** |

[45] Efallai fod gwahaniaethau yn y ffigyrau cyfanswm blynyddol a geir yn y tablau hyn rhagor nag adroddiadau blaenorol a oedd wedi eu torri i lawr yn ôl rhywedd , oherwydd mae nifer o achosion gyda rhywedd 'anhysbys' wedi eu cynnwys yma nawr yn y cyfanswm.

Mae'r CPS yn parhau i weithio ar draws y CJS a'r llywodraeth i ymdrin â chamdriniaeth plant. Cynrychiolir y CPS ar nifer o grwpiau cenedlaethol sy'n ymdrin ag amrediad eang o faterion plant, megis:

- Grŵp Llawn Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu – yn cynnwys amrywiaeth o faterion camdriniaeth plant gan gynnwys masnachu, 'sexting', pornograffi plant, cipio, triniaeth wael ac esgeulustod;
- Gweithgorau a arweinir gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – edrych ar gynigion i weithredu adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (croesholi wedi'i recordio'n flaenorol, gyda ffocws penodol ar blant ifanc); ystyried ymestyn adran 5 o Ddeddf Trais Domestig, Dioddefwyr a Throsedd 2004 i ymestyn i achosi/ caniatáu marwolaeth neu anaf difrifol; adolygu 'Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings';
- Pwyllgor Rhyngwyneb Trosedd-Teulu - ymdrin â materion sy'n deillio pan fo achosion paralel yn y llysoedd troseddol a theulu, gan gynnwys datgelu gwybodaeth, amseru achosion, defnydd o dystiolaeth arbenigol a holi tystion ifanc;
- Aelodaeth Panel Cyfeirio Asesu Thematig y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a Diogelwch Ar-Lein (CEOP) sy'n ymchwilio i 'hudo ar lefel leol'. Cyhoeddodd CEOP adroddiad ym Mehefin 2011 gydag argymhellion penodol i'r CPS adolygu erlyniadau camfanteisio rhywiol ar blant er mwyn dynodi rhwystrau i erlyniad a dynodi arfer gorau;
- Cyfrannu at adolygiad aml-asiantaeth o 'Gweithio Gyda'n Gilydd' yn enwedig o amgylch achosion paralel a chynadleddau achos, Adolygiadau Achos Difrifol ac achosion gofal.

**Camdriniaeth plant hanesyddol**

Mewn un achos, cychwynnodd camdriniaeth rywiol hanesyddol gan y diffynnydd ar ei ferch naturiol a'i lysfab pan oedd y dioddefwyr yn bump a daeth i ben pan oeddynt oddeutu 11 neu 12 oed. Yn ychwanegol, roedd yn eu cam-drin yn emosiynol ac yn cadw ar wahân yn gymdeithasol, ac roed dyn aml yn bygwth ei bartner yn dreisgar, sef mam y dioddefwyr. Dihangodd y fam o'r cartref teuluol gyda'r plant pan oedd y ferch yn ieuengach na phump oed, ond ni allai'r plentyn setlo ac roedd yn colli ei thad i'r fath raddau fel y rhoddodd y gorau i fwyta. Pan yn 5 oed cafodd ganiatâd i fynd yn ôl i fyw gyda'i thad a byddai'n treulio'r gwyliau ysgol gyda'i mam. Roedd yn cael ei threisio'n ddyddiol cyn yr ysgol o 5-11 oed.

O ganlyniad gwaethygodd ei hymddygiad yn yr ysgol yn gyflym ac adref roedd yn cael ei gwahanu'n gymdeithasol ac yn cael ei gwahardd rhag cael ffrindiau ei hun. Pan y sylweddolodd yn 11 oed beth oedd yn digwydd, cafodd hynny effaith drychinebus arni. Daeth yn fwli mawr; roedd yn bygwth plant bach, ac yn ymladd gyda'i chyfoedion. Cychwynnodd batrwm o amlgymharaeth o 11 ymlaen a chafodd nifer o erthyliadau naturiol. Hefyd dechreuodd ysmygu canabis a dechrau hunan niweidio fel ffordd o ddelio â'i llid.

Oherwydd ei hymddygiad eithafol yn yr ysgol cafodd ei chyfeirio at therapydd celf, ac mewn dadl boeth gyda'i mam, datgelodd o'r diwedd beth oedd wedi digwydd.  Hefyd gwelodd therapydd teulu a chynghorwr seico-deinamig ac yna roedd yn teimlo'n ddigon cryf i adrodd ynglŷn â'r gamdriniaeth i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Dywedodd y barnwr wrth gloi'r achos fod y diffynnydd yn 'ddyn creulon, dideimlad a oedd eisiau rheoli, yn hunanol a hynod ystrywgar, a oedd wedi dwyn eu plentyndod a'u diniweidrwydd oddi ar y ddau blentyn ac wedi cael effaith ddwys a rhwystrol ar eu datblygiad emosiynol.  Drwy gydol y treial roedd wedi haeru mewn ffordd hunan dwyllodrus mai eu mam oedd wedi eu perswadio i wneud yr honiad.  Ni ddangosodd unrhyw edifeirwch ac roedd yn ddiedifar'. Cafodd gyfnod o 20 mlynedd o garchar.

Arweiniodd gweithio ar y cyd gydag Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol (NPIA) at brotocol Rhybudd Achub Plant cytunedig domestig a rhyngwladol. Mae gwaith pellach wedi ei wneud gydag ACPO ar ddrafftio a chytuno Hysbysiadau Rhybudd Cipio Plentyn (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel 'Hysbysiadau Rhybudd Llocheswyr').

Mae darpariaethau cymhleth trosiannol y Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 wedi achosi i nifer o ymarferwyr gredu, ar gam, fod y Gorchmynion Anghymwyso yn ymwneud â phlant wedi eu diddymu. Cyhoeddwyd canllaw i erlynyddion i'w hatgoffa fod dal angen ystyried Gorchmynion Anghymwyso gan y llysoedd mewn achosion priodol

Hefyd cyhoeddwyd canllaw diwygiedig i erlynyddion ar y dull i'w fabwysiadu wrth ddelio ag 'Achosion Anafiadau Pen Nad Ydynt yn Ddamweiniol' [NAHI] (y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel Syndrom Babi wedi'i Ysgytio) yn amlinellu pa dystiolaeth mae erlynyddion ei hangen i brofi achos NAHI a'r heriau posib y gallant eu wynebu gan yr amddiffyniad.

Mae Cumbria yn un Ardal sydd wedi mabwysiadu protocol trydydd parti gyda'r heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddeunydd trydydd parti mewn achosion treisio a chamdriniaeth plant ac mae hyfforddiant arno i'w gyflenwi i bob asiantaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth. Yn 2011-12 bydd gwaith yn cychwyn ar adolygu'r protocol cenedlaethol yn unol ag argymhellion Stern.

**Camdriniaeth fyw ac ar y rhyngrwyd**
Arestiwyd y diffynnydd yn dilyn cwyn gan ferch yn ei harddegau ei bod wedi dioddef blacmel dros y rhyngrwyd. Wrth atafaelu'r holl gyfryngau electronig, canfu'r heddlu dystiolaeth o gamdriniaeth fyw merch fach dair oed mewn meithrinfa ble'r oedd y diffynnydd yn gweithio, ynghyd â thystiolaeth o ymgysylltu â channoedd o genethod drwy'r rhyngrwyd a rhannu eu delweddau. Canolbwyntiodd ymchwiliad yr heddlu ar tua 20 a oedd yn amlwg dan oed.

Defnyddiwyd gwahanol ddarpariaethau oed S 10 SOA 2003 (hyd at 16 oed) a Gwneud Lluniau Anweddus 1978 (hyd at 18 oed) i sicrhau na allai’r diffynnydd ddibynnu ar haeru ei fod yn meddwl fod y genethod dros 16 oed er mwyn osgoi cyfiawnder.

Plediodd y diffynnydd yn euog i ddwy drosedd o dreisio geneuol, 17 o gymell trosedd rywiol gyda phlentyn S 10 SOA 2003, 25 o wneud delweddau anweddus o blant a thri o ddosbarthu delweddau anweddus o blant. Cafodd ei ddedfrydu i ddedfryd dewisol o garchar am oes gyda lleiafswm o 15 mlynedd dan glo.

# Masnachu mewn pobl

Yn 2010-11 roedd 103 erlyniadau o fasnachu, gyda 71% yn llwyddiannus, fel y dengys Tabl 5. Dynodwyd achosion gan ddefnyddio baner newydd 'masnachu'[46] o fewn system casglu data CMS a gychwynnodd yn Ebrill 2010. Fel gydag unrhyw system fonitro newydd, mae angen amser iddi sefydlu er mwyn sicrhau ei defnydd cywir. Mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data'n ofalus felly yn ystod y flwyddyn gyntaf hon.

**Tabl 5: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl deilliant**

| | 2010 - 2011 | |
|---|---|---|
| | Nifer | % |
| Euogfarnau | 73 | 70.9 |
| Aflwyddiannus | 30 | 29.1 |
| **Cyfanswm** | **103** | |

Cofnodwyd rhywedd yr holl diffynyddion – roedd 79% yn ddynion. Cofnodwyd 57 o ddioddefwyr, a chafwyd rhywedd 60% ohonynt, ond nid yw hyn yn ddigon cadarn i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn. Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion rhwng 25-59 oed.

## Polisi newydd

Yng Ngorffennaf 2010 cychwynnodd y CPS ar ymgynghoriad cyhoeddus tri mis ar ei ddrafft Datganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyniad achosion masnachu mewn pobl, i roi cyfle i'r sefydliadau ac unigolion hynny sy'n cefnogi dioddefwyr masnachu mewn pobl hysbysu a dylanwadu ar ddatganiad polisi'r CPS, wedi'i seilio ar eu profiad o gefnogi dioddefwyr.

Yn rhannol, mae'r Datganiad Polisi Cyhoeddus wedi ei anelu at y rheiny sy'n rhoi cefnogaeth i ddioddefwyr masnachu, i'w helpu i egluro'r prosesau dan sylw a'r hyn y gellir ei wneud trwy ddiogelwch a chefnogaeth os yw'r dioddefwyr yn penderfynu ymgysylltu ag achosion troseddol.

Mae'r CPS wedi diwygio eu canllaw cyfreithiol, yn ogystal â'r datganiad polisi, fel canlyniad uniongyrchol i'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig yn y maes sy'n ymwneud â'r modd mae'r CPS yn delio â'r rheiny y gellir eu hystyried yn "ddioddefwyr", ond sy'n cael eu hadfer o leoliadau trosedd a'u harestio am droseddau troseddol. Cyhoeddwyd y Datganiad Polisi Cyhoeddus a'r canllaw cyfreithiol wedi'i ddiweddaru i erlynyddion ym Mehefin 2011.

[46] Y troseddau wedi eu fflagio yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adran 57, 58 a 59) a Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3).
Gosodir y faner ar gychwyn yr achos; bydd y faner hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os yw achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid gosod baner ar y cam hwnnw.

**Cyswllt fideo o dramor**
Mewn un achos yng Nghaint roedd y dioddefwr masnachu wedi dychwelyd i wlad ei tharddiad, i geisio triniaeth feddygol yn dilyn dirywiad difrifol yn ei chyflwr. Gwnaethpwyd trefniadau felly iddi roi ei thystiolaeth trwy gyswllt fideo o'i gwely, ar ôl iddi gael ei chludo mewn ambiwlans i leoliad ble'r oedd modd gosod cyswllt fideo i fyny dros dro. Gosodwyd hwn i fyny gyda help gan gyfreithiwr a oedd â chysylltiadau blaenorol gyda'r wlad hon yn ystod ei hamser gyda'r Llys Rhyngwladol yn yr Hague.

Ar wahanol bwyntiau yn ystod y treial, ildiodd y tri diffynnydd a phledio'n euog i bedwar cyfrif yr un. Cafodd y tri ddedfrydau sylweddol o garchar.

## Caethwasiaeth a chaethiwed

Daeth trosedd yn sefyll ar ei phen ei hun o ddal unigolyn arall mewn llafur gorfodol neu gaethwasiaeth a chaethiwed i rym ar 6 Ebrill 2010, i ymdrin â bylchau mewn deddfwriaeth masnachu mewn pobl dan adran 4 o'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo. Mae unigolyn yn cyflawni trosedd os ydynt yn dal unigolyn arall mewn caethwasiaeth neu gaethiwed, neu eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn arall berfformio llafur gorfodol. Mae hyn yn cynorthwyo'r achosion hynny ble mae'n anodd cael tystiolaeth masnachu neu mewn amgylchiadau ble mae'r dioddefwyr yn agored i gamfanteisio ond heb ddioddef masnachu. Defnyddiwyd y drosedd hon wedi hynny mewn achosion yn cynnwys caethiwed domestig. I yrru ymlaen mwy o ymchwiliadau ac erlyniadau yn y maes hwn, mae'r CPS wedi datblygu cytundeb gydag ACPO, Asiantaeth Ffiniau'r DU, Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau (GLA), i roi cyngor cyn-cyhuddo i'r GLA mewn amgylchiadau ble maent yn dod ar draws troseddau troseddol posib yn deillio o niwed neu gamfanteisio ar ddioddefwyr, o ganlyniad i'w hymchwiliadau trwyddedu.

**Achos caethiwed**
Masnachwyd dau o blant a menyw 21 oed i Brydain o Nigeria, ar basbortau ffug, gan y diffynnydd gan hawlio mai ei phlant hi ei hun oeddynt ac yna eu defnyddio fel 'gweision'.

Dywed ditectifs o sgwad Operation Paladin Heddlu'r Metropolitan, sy'n ymdrin â masnachu plant, fod yr achos wedi amlygu'r pryder cynyddol fod plant yn cael eu cludo i Brydain ar gyfer caethiwed domestig neu dwyll budd-daliadau.

Roedd un plentyn, a gyrhaeddodd yn 1997, i fod i barhau â'i haddysg ym Mhrydain ond ni chafodd erioed ei hanfon i'r ysgol a chafodd ei gorfodi i weini ar blant y diffynnydd. Roedd ei diwrnod yn cychwyn am 5 a.m. ac nid oedd yn cael mynd i'w gwely tan 1a.m. Roedd yn cael ei churo'n rheolaidd ac ar un achlysur rhoddwyd pupur yn ei llygaid a'i rhannau cenhedlol fel cosb, a chafodd ei tharo gyda chyllell gig.

## Strategaeth masnachu mewn pobl y DU

Mae'r CPS wedi cyfrannu at ddatblygu strategaeth newydd i'r DU yng nghyswllt masnachu mewn pobl, ac fe'i cyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2011. Mae'r strategaeth newydd hon yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: mwy o allu i weithredu'n brydlon, cyn i'r niwed gyrraedd y DU; gweithredu'n fwy effeithiol ar y ffin; cydlynu gwaith gorfodaeth gyfreithiol yn well yn y DU; a gwell trefniadau i ofalu am ddioddefwyr.

Mae'r CPS yn chwarae rhan bwysig yn y broses o rwystro niwed a ddaw yn sgil masnachu rhag cyrraedd y DU, wrth i erlynyddion weithio gyda'r gwledydd tarddiad gyda golwg ar wella gallu ymchwilwyr ac erlynyddion tramor i lunio achosion ac erlyniadau er mwyn rhwystro unrhyw fasnachu mewn pobl yn llygad y ffynnon. Yn ogystal mae'r CPS yn gweithio gyda gwledydd tarddiad ar wella cydweithrediad rhyngwladol er mwyn cynorthwyo gyda darparu gwybodaeth a thystiolaeth i gefnogi erlyniadau yn y DU. Ym mis Hydref 2010, aeth arbenigwyr y CPS i Fietnam i ymchwilio, gyda swyddogion gorfodaeth gyfreithiol ac erlynyddion Fietnam, i'r anawsterau o gael tystiolaeth ynghyd er mwyn cefnogi erlyniadau yng nghyswllt masnachu plant a chamfanteisio gysylltiedig. Ar ôl cynnal trafodaethau gydag erlynyddion, barnwyr a llu o asiantaethau gorfodaeth gyfreithiol yn Fietnam tarwyd ar gytundebau cadarnhaol i ddarparu cymorth i'r CPS a gorfodaeth gyfreithiol yn y DU. Yn seiliedig ar y cytundebau hyn, a hefyd gyda chymorth cysylltiadau penodol, lluniwyd canllawiau manwl i erlynyddion y CPS, a rhannwyd nhw ymhlith asiantaethau gorfodaeth gyfreithiol yn y DU.

Mae'r CPS yn rhan o brosiect gyda'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA), a chyda'r Swyddfa Ryngwladol Mewnfudo a Gwrthgaethwasiaeth, sy'n gweithio ar feithrin gallu yn Nigeria. Nigeria yw'r brif wlad darged yn y DU yng nghyswllt dioddefwyr masnachu; llawer ohonynt yn enethod ifanc a fasnachwyd i'r DU ar gyfer caethiwed ddomestig a chamfanteisio rhywiol. Fel rhan o'r prosiect cafwyd ymweliad astudiaeth sgopio ym Mehefin 2011 i ymchwilio i orfodaeth gyfreithiol ac ymateb erlyniadol i fasnachu yn llygad y ffynnon a chanfod ffyrdd o wella gyda golwg ar rwystro niwed rhag cyrraedd y DU a gwledydd eraill sy'n aelodau o'r Undeb Ewropeaidd.

Ym Mawrth 2011 cyhoeddodd y Gweinidog Mewnfudo fwriad y Llywodraeth i optio i mewn i Gyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd ar Fasnachu mewn Pobl. Er nad yw hyn yn newid yn sylweddol bolisi'r Llywodraeth ar fasnachu, mae'r testun yn mynnu bod arfer dda yn cael ei hymgorffori mewn deddfwriaeth.

# Puteindra

Daeth darpariaethau newydd yn y Ddeddf Heddlu a Throseddau 2009 yng nghyswllt puteindra i rym ar 1 Ebrill 2010 gan ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys darpariaethau gan lywodraeth leol i wneud gorchmynion cau puteindai a newid i drefniadau trwyddedu clybiau dawnsio glin gyda golwg ar reoli eu horiau agor a'u rheoleiddio. Hefyd, fel gwyriadau yn lle erlyn, gwnaed gorchymyn newydd i'r rhai sy'n rhan o buteindra stryd, sy'n mynnu eu bod yn mynychu cyfarfodydd i ymgysylltu gyda'r gwasanaethau hanfodol i geisio ffyrdd o gefnu ar y gweithgaredd. Tynnwyd y term 'putain gyffredin' o Adran 1 (1) Deddf Troseddau Stryd (SOA) 1959 a diwygiwyd 'ymddygiad dyfal' yn Adran 1(4) SOA 1959, os yw'n digwydd ar ddau achlysur neu ragor mewn unrhyw gyfnod o dri mis.

Yng nghyswllt erlyniadau, cyflwynwyd trosedd newydd S51A SOA 2003 i unigolyn yn y stryd neu mewn lle cyhoeddus ymofyn gan un arall i bwrpas cael gwasanaeth rhywiol fel putain. Mae hyn yn cynnwys unigolyn mewn cerbyd modur yn y stryd neu mewn lle cyhoeddus, a chymerodd le troseddau plagio pen stryd a loetran dyfal dan S 1 a 2 SOA 1985. Yn ychwanegol roedd trosedd newydd S53A yr SOA 2003 yn gwneud troseddwyr o'r rheiny sydd yn talu neu'n addo talu am wasanaethau rhywiol putain sy'n destun gorfodaeth neu gamfanteisio.

Yn 2010-11 erlynwyd 111 o droseddau rheoli puteindra, cynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Disodlwyd erlyniadau troseddau plagio pen stryd dan S1(1)(a) ac S1(1)(b) SOA 1985 gan S51A SOA 2003 – ac erlynwyd 123 o droseddau dan yr adran hon. Cafodd 40 o droseddau S53A SOA 2003 yng nghyswllt talu am wasanaethau rhywiol gan butain a oedd yn destun gorfodaeth neu gamfanteisio eu trosglwyddo i'r CPS am benderfyniad i gyhuddo.

Hefyd, y llynedd, gwelwyd cynnydd bychan iawn yn yr erlyniadau am gadw puteindai. Bu cwymp bychan yn yr erlyniadau am adael cardiau hysbysebu puteindra mewn blychau ffôn cyhoeddus. Mae Tabl 6 yn amlinellu'r data a gasglwyd gan y CPS yng nghyswllt puteindra[47].

[47] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyn, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodwyd yn y Bydysawd Troseddau yw'r rheiny a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd.
Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib tra'n llwytho data a'i brosesu. Rhai dros dro yw'r ffigyrau ac mae'n bosib y cânt eu newid wrth i'r CPS gofnodi rhagor o wybodaeth.

**Tabl 6: Erlyniadau Troseddau VAWG: troseddau puteindra**

| | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 |
|---|---|---|---|---|
| **A Rheoli puteindra** | | | | |
| Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {52} | 16 | 17 | 11 | 24 |
| Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {53} | 67 | 93 | 87 | 87 |
| **CYFANSWM** | **83** | **110** | **98** | **111** |

| B Cadw puteindai | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33} | 56 | 83 | 39 | 48 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33A o Atodlen 2} | 84 | 130 | 70 | 106 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {34} | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol {35(1)} | 1 | 6 | 2 | 3 |
| Deddf Troseddau Rhywiol {36} | 1 | 2 | 3 | 0 |
| **CYFANSWM** | **142** | **221** | **114** | **157** |

| C Plagio Pen Stryd | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(a)} | 439 | 331 | 375 | 161 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(b)} | 13 | 10 | 21 | 5 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {2(1)} | 82 | 24 | 23 | 31 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 {51A} | I0 | 0 | 0 | 123 |
| **CYFANSWM** | **534** | **365** | **419** | **320** |

| D Hysbysebu puteindra | 2007 - 2008 | 2008 - 2009 | 2009 - 2010 | 2010 - 2011 |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 {46} | 330 | 349 | 457 | 331 |

Nodiadau:
1. Data yn ymwneud â nifer y troseddau y cychwynnwyd erlyniad yn eu cylch ac a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS.
2. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant.
3. Y troseddau a gofnodwyd yn y Bydysawd Troseddau yw'r rhai hynny a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd.
4. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib tra'n llwytho data a'i brosesu. Rhai dros dro yw'r ffigyrau ac mae'n bosib y cânt eu newid wrth i'r CPS gofnodi rhagor o wybodaeth.

**Plagio Pen Stryd**

Mae Humberside wedi gweithio'n agos gyda'r heddlu ar gynllun i fynd i'r afael â phlagio pen stryd yng nghanol Hull. Roedd hyn yn rhan o'r rhaglen Erlynydd Cymunedol. Ymdriniwyd gyda'r rhan fwyaf o achosion trwy rybuddion neu wyro, ond arweiniodd rhai achosion at erlyniadau. Gyda'r achosion hynny, mae Pennaeth Llys Ynadon Hull a'r East Riding wedi penodi erlynydd arweiniol i ddelio gyda'r achosion hyn, sydd wedi ei gwneud yn ofynnol rhoi anhysbysrwydd i swyddogion heddlu a gymerodd arnynt fod yn buteiniaid stryd er mwyn casglu tystiolaeth.

## Canllaw

**Traws lywodraeth**

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn datblygu canllaw "*Effective practice in responding to prostitution*" trwy weithio ar y cyd gyda'r CPS, ACPO, Grwpiau Prosiect Gweithwyr Rhyw, llywodraeth leol a'r Adran Iechyd ac fe gyhoeddwyd y ddogfen ym Medi, 2011. Mae'n dwyn sylw at yr egwyddorion allweddol sy'n angenrheidiol i ddarparu ymateb effeithiol i'r rheiny sy'n ymwneud yn bennaf â phuteindra stryd ac yn y ddogfen mae astudiaethau achos ac enghreifftiau o waith sydd eisoes yn cael ei wneud yn Lloegr a Chymru.

Mae wedi'i hanelu at lefel strategol y strwythurau presennol – awdurdodau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol lleol i gynorthwyo yn y broses o ddatblygu dull rhagweithiol i ymdrin â'r materion sy'n gysylltiedig â phuteindra yn eu hardaloedd gan gynnwys cynnig cymorth i'r rheiny sy'n rhan o buteindra neu'n dymuno cefnu ar buteindra.

**Canllaw'r CPS**

Ym Mehefin 2011 cyhoeddwyd polisi a chanllaw cyfreithiol diwygiedig ar gamfanteisio ar buteindra. Diweddarwyd hwn i egluro bod angen tystiolaeth i ddyfalwch ar gyfer y drosedd ddiwygiedig, sef loetran neu gynnig gyda dyfalwch ar stryd neu mewn lle cyhoeddus i bwrpas cynnig gwasanaethau putain ac yng nghyswllt masnachu plant yn fewnol i gamfanteisio'n rhywiol arnynt.

## Strategaeth blismona

Yn ystod 2010-11 bu'r CPS yn rhan o waith datblygu Strategaeth Plismona Puteindra a chamfanteisio rhywiol newydd ACPO fel cymorth i'r heddluoedd wrth iddynt blismona puteindra. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo ffordd gyfannol o weithio yng nghyswllt plismona puteindra gyda golwg ar gadw cydbwysedd rhwng tair elfen hanfodol – yr unigolyn, y gymuned ac ymchwilio i'r rhai sy'n camfanteisio a cham-drin ac erlyn y rhai hynny. Hefyd mae'n cydnabod y cyswllt gyda chyffuriau a throseddau cyfundrefnol ac mae'n ymdrin â chamfanteisio ar blant a phobl ifanc yn rhywiol, peth a allai ymwneud â chamfanteisio rhywiol masnachol neu arwain at hynny.

Bydd fersiwn derfynol y strategaeth yn cael ei chyhoeddi a'i rhoddi i holl Brif Swyddogion yr Heddlu.

## Cefnogaeth i ddioddefwyr

Bu prosiectau Rhwydwaith Gweithwyr Rhyw y DU yn rhedeg prosiect 12 mis (Ion – Rhag 2010) i ddatblygu model arfaethedig ar gyfer cynllun rhoddi gwybod am ddigwyddiadau ar draws y DU dan yr enw 'Ugly Mugs'. Amcan y cynllun ugly mugs yw hybu diogelwch gweithwyr rhyw trwy ddwyn eu sylw at unigolion peryglus (cwsmeriaid) gan rannu rhybuddion yn gyflym iawn; cofnodi a monitro trais yn erbyn gweithwyr rhyw a'u galluogi i ddweud wrth yr heddlu am droseddau trwy gyfrwng trydydd parti. Trwy gynyddu adroddiadau i'r heddlu, bydd cynnydd hefyd yn yr ymchwiliadau ac yn yr erlyniadau a bydd hyder yn cael ei feithrin rhwng y gweithwyr rhyw a'r heddlu. Mae astudiaeth achos wedi'i chynnwys yn adran drais yr adroddiad hwn.

Ar Lannau Mersi mae ISVA pwrpasol yn cael ei gyllido i weithio gyda gweithwyr rhyw. Cafwyd nifer o erlyniadau troseddau rhywiol pan roddwyd cefnogaeth yr ISVA arbenigol i'r dioddefwr gweithiwr rhyw gefnu ar waith rhyw a rhoddi sylw hefyd i'r problemau cyffuriau sydd wrth wraidd pethau. Mae'r dull amlasiantaethol hwn o weithio'n rhoddi sylw i'r problemau sylfaenol y mae gweithwyr rhyw yn gorfod ymgodymu â nhw, a chyda'r nod o ostwng lefelau puteindra a hyrwyddo eu diogelwch ar yr un pryd.

**Erlyn troseddau yn erbyn gweithwyr rhyw**
Ymosodwyd yn rhywiol ar dair menyw ar yr un noson ym Medi 2010. Ar bob achlysur llwyddodd y dioddefwr i ddianc ond roedd un diffynnydd wedi bygwth lladd un dioddefwraig ac roedd â'i fryd ar gyflawni troseddau rhywiol ar ddwy ddioddefwraig arall – un ohonynt yn weithiwr rhyw. Daeth un swyddog pwrpasol â'r tri achos at ei gilydd a sicrhau cefnogaeth yr ISVA, a chefnogaeth arbenigol ISVA i'r gweithiwr rhyw.

Plediodd y diffynnydd yn euog i'r ddau achos cyntaf ond nid i achos y gweithiwr rhyw. Felly bu'n rhaid i'r ddioddefwraig fynd i'r llys, lle siaradodd am y drosedd ac am y sefyllfa yr oedd hi ynddi o ran defnyddio cyffuriau a gwneud gwaith rhyw a chafodd ei chroesholi'n galed gan fargyfreithiwr yr amddiffyniad. Fe'i cafwyd yn euog gan y rheithgor – a chafodd ef ei garcharu am saith mlynedd a llofnodi'r gofrestr troseddwyr rhyw am oes. Ers hynny mae'r ddioddefwraig wedi cefnu ar waith rhyw, mae'n rhydd o gyffuriau stryd ac yn dilyn rhaglen lleihau methadon.

## Gemau Llundain 2012

Mae'r CPS wedi parhau i weithio gyda Neuadd y Ddinas a hefyd gyda'r heddlu, gydag adrannau eraill y llywodraeth a chyda'r trydydd sector ar ddatblygu ymateb cyn Gemau Llundain 2012 fel cymorth i fynd ar drywydd puteindra a masnachu i ddibenion camfanteisio rhywiol. Mae hyn wedi cynnwys trafodaeth ar waith ataliol, gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau iechyd, codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio ac o'n deddfwriaeth ddomestig.

# Pornograffi ac anweddustra

Yn 2010-11 bu cynnydd mawr yn nifer yr erlyniadau camfanteisio rhywiol ar blant trwy ffotograffau, yn bennaf oherwydd cynnydd yn yr erlyniadau am wneud ffotograffau anweddus o blant. Mae Tabl 7 yn amlinellu data'r CPS yng nghyswllt data troseddau camdriniaeth plant yn gyffredinol[48].

**Tabl 7: Troseddau camdriniaeth plant trwy ddelweddau**

| | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (160) – Meddu ar ffotograff anweddus o blentyn | 3,079 | 4,241 | 4,117 | 4,543 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (62) – Meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn | 0 | 0 | 0 | 21 |
| **Ecsbloetio plant yn rhywiol trwy ffotograffau yr oedd:** | **11,873** | **14,656** | **14,595** | **17,400** |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(a)) – Gwneud ffotograff anweddus o blentyn | 10,832 | 13,454 | 13,652 | 16,289 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(b)) – Dosbarthu ffotograff anweddus o blentyn | 678 | 931 | 804 | 684 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(c)) – Dangos ffotograffau anweddus o blant | 345 | 258 | 137 | 424 |
| ▪ Deddf Amddiffyn 1978 (1(1)(d)) – cyhoeddi hysbyseb sy'n debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos ffotograffau anweddus o blant | 18 | 13 | 2 | 3 |

Dan Adran 62 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ('y Ddeddf') crëwyd trosedd newydd, sef meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn, un y mae modd ei chosbi gyda hyd at dair blynedd o garchar. Daeth y drosedd hon i rym ar 6 Ebrill 2010. Mae'n targedu delweddau nad ydynt yn rhai ffotograffig (sy'n cynnwys delweddau a grëwyd trwy gyfrifiadur (CGI's) a chartwnau) ac felly'n benodol yn eithrio ffotograffau anweddus, neu ffug-ffotograffau o blant, yn ogystal â dargopïau neu ffotograffau deilliadol a ffug-ffotograffau.

Yn ystod 2010 – 11, cafwyd nifer o gyhuddiadau o droseddau pornograffi a rhai eraill a rheiny'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad mewn llysoedd ynadon dan nifer o Ddeddfau[49]. Mae cofnodion y CPS yn nodi faint o achosion a gychwynnwyd dan y ddeddfwriaeth hon, ond heb wahaniaethu rhwng cyfathrebiadau'n ymwneud â phornograffi ar y naill law a'r rheiny nad ydynt ar y llaw arall.

[48] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau, lle cychwynnwyd erlyniad, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar system y CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei ddal yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodwyd yn y Bydysawd Troseddau yw'r rheiny a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes arwydd o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad sylweddol yn y diwedd.
Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib tra'n llwytho data a'i brosesu. Rhai dros dro yw'r ffigyrau ac mae'n bosib y cânt eu newid wrth i'r CPS gofnodi rhagor o wybodaeth.

[49] Deddf Amddiffyn Plant 1978; Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959; Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf (Rheoli) Arddangosiadau Cyhoeddus Anweddus 1981; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a Deddf Cyfathrebu 2003.

Mae Tabl 8 yn amlinellu data'r[50] CPS ar droseddau anweddustra[51]. Yn ôl y disgwyl, gyda'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg a'r rhyngrwyd, bu gostyngiad yn yr erlyniadau dan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus yng nghyswllt cyhoeddiadau anweddus a chynnydd cyfatebol yn yr erlyniadau dan adran 127 y Ddeddf Cyfathrebu[52] ac adran 1 Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988[53].

Yn 2010-11 bu cynnydd mawr yn yr erlyniadau dan yr adrannau newydd, a gyflwynwyd yn Ionawr 2009, yng nghyswllt delweddau pornograffig eithafol.

**Tabl 8: Troseddau anweddustra**

| | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 Adrannau (1 (1)(a) & (1)(b)) – Deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn | 566 | 791 | 899 | 1,273 |
| Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959 (2 (1) ) – Cyhoeddiadau anweddus | 111 | 152 | 82 | 71 |
| Deddf Cyfathrebu 2003 (127 (1)(a), (1)(b) & (3))Cyfathrebiadau tramgwyddus neu anweddus iawn | 1,037 | 1,278 | 1,315 | 1,869 |
| Deddf Cyfathrebu 2003 (127 (2)(a), (2)(b), (2)(c) a (3)) - Achosi blinder, anhwylustod neu bryder diangen i unigolyn arall. | 568 | 659 | 888 | 1,037 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63 (1), (7)(d) a 67(3)) – Meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol | 0 | 2 | 213 | 995 |

Mae cofnodion y CPS yn nodi, fesul Deddf ac Adran, nifer y troseddau y cychwynnwyd erlyniad yn eu cylch yn y llysoedd ynadon. Fodd bynnag, ni chedwir gwybodaeth am ddeilliant y camau ar y lefel hon o fanylder – mae canlyniadau achosion yn cael eu cadw ar lefel diffynnydd, yn hytrach nag ar lefel benodol y drosedd. Yn ystod y broses o erlyn efallai y bydd trosedd yn cael ei diwygio sawl gwaith, ond ni chedwir yng nghofnodion y CPS unrhyw wybodaeth yn dangos a oedd y drosedd wreiddiol yn aros fel y cyhuddiad sylweddol ar ddiwedd yr achos.

[50] Ibid

[51] Mae Deddfau Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959 a 1964 yn nodi beth yw'r gyfraith yng nghyswllt cyhoeddiadau anweddus. Mae prawf anweddustra yn ymddangos yn adran 1(1) OPA 1959. Mae'r troseddau'n cael eu creu dan adran 2 OPA 1959 ac mae modd cosbi gyda charchariad am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mae pob deunydd cyhoeddedig yn atebol i'r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959. Dan y Ddeddf hon mae'n drosedd droseddol cyhoeddi unrhyw erthygl y credir ei bod yn anweddus; sef erthygl y tybia'r llysoedd ei bod yn tueddu i 'lygru' unigolyn sy'n debygol o'i gweld, ei chlywed neu ei darllen. Mae Adrannau 63 i 67 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud hi'n drosedd i rywun feddu delweddau pornograffig sy'n dangos gweithgaredd sy'n fygythiad i fywyd unigolyn, gweithgaredd sy'n arwain at neu sy'n debygol o arwain at niwed difrifol i anws, i fronnau neu i genitalia unigolyn, i fwystfileiddiwch neu necroffilia; hefyd mae ynddynt ddarpariaeth i eithrio ffilmiau dosbarthedig a.y.b. ac yn nodi amddiffyniadau a chosbau am y drosedd. Daeth y drosedd hon i rym ar 26 Ionawr 2009.

[52] Dan Adran 127 Deddf Cyfathrebu 2003 mae trosedd yn cael ei chreu, sef gyrru, 'trwy rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus, neges neu fater arall sy'n ddifrifol o dramgwyddus neu sydd o natur anweddus, anllad neu fygythiol.' Mae modd defnyddio'r drosedd yng nghyswllt y "cyfryngau'n ehangach" ac mae iddi "gyfoesedd", hyd yn oed "ddiogelwch at y dyfodol" – rhywbeth na welir mohono yn nhelerau mwy caeth rhai deddfwriaethau eraill.

[53] Mae'rDdeddf Cyfathrebu Maleisus yn ei gwneud hi'n drosedd i unrhyw un yrru llythyr, cyfathrebiad electronig [h.y. e-bost] neu erthygl arall sy'n anweddus, anllad neu'n fygythiol at unigolyn arall.

**Hudo a delweddau**
Cyfaddefodd diffynnydd iddo hudo merch cyn cael cyfathrach rywiol anghyfreithlon gyda hi. Mae hefyd wedi pledio'n euog i lawrlwytho delweddau o blant ar ei gyfrifiaduron gartref.

Digwyddodd y gamdriniaeth pan oedd y diffynnydd yn ei 40'au. Siaradodd y diffynnydd gyda'r ferch ar-lein, mynd â hi am dro yn ei gar a rhoi gwin a sigaréts iddi. Arweiniodd ei gynllun at iddo gael rhyw gyda'r ferch 15 oed sawl gwaith dros gyfnod o fisoedd. Dywedodd y ferch yn ei harddegau iddi gydsynio, ond ei bod wedi gadael iddo ddigwydd oherwydd ofn.

Ym Mawrth 2010 dywedodd y dioddefwr wrth yr heddlu am ei phrofiad. Bu cyrch gan swyddogion ar gartref y diffynnydd, gan atafaelu dau gyfrifiadur a chanfod arnynt gannoedd o ddelweddau anweddus o blant.

Carcharodd y Barnwr y diffynnydd am bum mlynedd a'i roddi ar y gofrestr troseddwyr rhyw am oes. Yn ogystal gorfododd y Barnwr Orchymyn Atal Troseddau Rhywiol (SOPO) ar y diffynnydd, yn ei wahardd rhag gweithio gyda phlant.

Roedd gan y diffynnydd hanes o droseddau rhywiol yn erbyn plant. Yn y 1970au, pan oedd yn 18, cafwyd ef yn euog o anweddustra difrifol gyda bachgen saith oed, ac yna flynyddoedd yn ddiweddarach o ymosod yn rhywiol ar ferch dan 16 oed yn 1999.

Ers rhai blynyddoedd cynhaliwyd seminar CPS Pornograffi ac anweddustra ym mis Hydref bob blwyddyn. Oherwydd yr amgylchiadau economaidd presennol, y llynedd cynhaliwyd seminar Pornograffi ac anweddustra eithafol ym mis Tachwedd 2010 mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn y Ganolfan Ddiogelu Rhag Ecsbloetio Plant ac Ar-lein (CEOP).

Yn y seminar edrychwyd ar astudiaethau achos yng nghyswllt Pornograffi ac Anweddustra Eithafol, a chan gynnwys gwersi a ddysgwyd ac arferion da a fydd o gymorth gydag ymchwiliadau'r dyfodol.

**Cylch pedoffiliaid**
Yn yr achos cyntaf o'i fath yn Lloegr a Chymru, cyfaddefodd pedwar dyn iddynt redeg cylch rhyngwladol o bedoffiliaid i rannu miliynau o ddelweddau ac o ffilmiau anweddus o blant mewn dros 40 o wledydd ar draws y byd. Plediodd y dynion yn euog i nifer o gyhuddiadau o wneud, o ddosbarthu ac o brosesu delweddau anweddus o blant.

Roedd y dynion yn cynnal grwpiau newyddion rhyngrwyd anghyfreithlon heb eu sensro a defnyddwyr yn tanysgrifio iddynt ac yn lawrlwytho ohonynt er mwyn dosbarthu delweddau a chlipiau fideo o gamdriniaeth plant.

Dechreuodd yr ymchwiliadau i'r grŵp yn 2005 ar ôl derbyn gwybodaeth gan Heddlu Ffederal yr Almaen bod y grŵp yn cynnal gwasanaeth newyddion a oedd â chysylltiad rhyngddo â delweddau anweddus o blant. Honnir i'r grŵp ennill dros £2.2 miliwn dros gyfnod o saith mlynedd.

Arestiwyd pob un o'r pedwar dyn yn Ebrill 2009 cyn eu cyfweld a'u cyhuddo ym Mehefin 2010. Dedfrydwyd nhw ym Mehefin 2011 a charcharwyd yr arweinydd honedig a'i bartner sifil am 33 mis yr un. Ymunodd brawd yr arweinydd â'r busnes pan oedd hwnnw wedi dechrau llewyrchu a chafodd ef ei garcharu am 15 mis. Cafodd cyfaill, un a adawodd y prosiect dair blynedd cyn iddo gael ei gau i lawr, ei garcharu am 12 mis wedi'i ohirio am ddwy flynedd a gwneud 240 awr o waith di-dâl. Mae'n rhaid i bob un o'r dynion lofnodi'r Gofrestr Troseddwyr Rhyw.

Roedd y nifer fwyaf o danysgrifwyr i'r gwasanaeth newyddion yn dod o Unol Daleithiau America. Roedd 211 o danysgrifwyr o'r Deyrnas Unedig a hyd yma deliwyd gyda 38 ohonynt.

| Trais yn erbyn menywod a genethod | Erlyniadau CPS 2010 - 2011 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Areas** | **68,154** | **71.5%** | **27,103** | **28.5%** | **95,257** |
| **Cymru Wales** | **4,303** | **71.8%** | **1,691** | **28.2%** | **5,994** |
| Dyfed Powys | 384 | 68.7% | 175 | 31.3% | 559 |
| Gwent | 877 | 74.4% | 302 | 25.6% | 1,179 |
| North Wales | 1,011 | 73.6% | 362 | 26.4% | 1,373 |
| South Wales | 2,031 | 70.4% | 852 | 29.6% | 2,883 |
| **Eastern** | **4,869** | **79.0%** | **1,297** | **21.0%** | **6,166** |
| Cambridgeshire | 950 | 73.6% | 341 | 26.4% | 1,291 |
| Essex | 1,785 | 78.6% | 485 | 21.4% | 2,270 |
| Norfolk | 1,186 | 80.1% | 295 | 19.9% | 1,481 |
| Suffolk | 948 | 84.3% | 176 | 15.7% | 1,124 |
| **East Midlands** | **5,412** | **73.7%** | **1,933** | **26.3%** | **7,345** |
| Derbyshire | 1,457 | 75.1% | 484 | 24.9% | 1,941 |
| Leicestershire | 1,199 | 76.5% | 369 | 23.5% | 1,568 |
| Lincolnshire | 618 | 77.6% | 178 | 22.4% | 796 |
| Northamptonshire | 666 | 69.4% | 293 | 30.6% | 959 |
| Nottinghamshire | 1,472 | 70.7% | 609 | 29.3% | 2,081 |
| **London** | **7,759** | **59.5%** | **5,291** | **40.5%** | **13,050** |
| **Merseyside & Cheshire** | **2,862** | **70.9%** | **1,177** | **29.1%** | **4,039** |
| Cheshire | 1,144 | 73.5% | 412 | 26.5% | 1,556 |
| Merseyside | 1,718 | 69.2% | 765 | 30.8% | 2,483 |
| **North East** | **4,606** | **73.3%** | **1,674** | **26.7%** | **6,280** |
| Cleveland | 1,106 | 69.1% | 494 | 30.9% | 1,600 |
| Durham | 1,012 | 78.3% | 281 | 21.7% | 1,293 |
| Northumbria | 2,488 | 73.5% | 899 | 26.5% | 3,387 |
| **North West** | **10,071** | **74.6%** | **3,433** | **25.4%** | **13,504** |
| Cumbria | 700 | 78.4% | 193 | 21.6% | 893 |
| Greater Manchester | 5,299 | 74.3% | 1,832 | 25.7% | 7,131 |
| Lancashire | 4,072 | 74.3% | 1,408 | 25.7% | 5,480 |
| **South East** | **3,756** | **74.2%** | **1,306** | **25.8%** | **5,062** |
| Kent | 1,530 | 75.5% | 497 | 24.5% | 2,027 |
| Surrey | 493 | 72.7% | 185 | 27.3% | 678 |
| Sussex | 1,733 | 73.5% | 624 | 26.5% | 2,357 |
| **South West** | **4,244** | **75.4%** | **1,381** | **24.6%** | **5,625** |
| Avon & Somerset | 2,069 | 75.2% | 682 | 24.8% | 2,751 |
| Devon & Cornwall | 1,629 | 75.3% | 533 | 24.7% | 2,162 |
| Gloucestershire | 546 | 76.7% | 166 | 23.3% | 712 |
| **Thames & Chiltern** | **3,389** | **72.0%** | **1,318** | **28.0%** | **4,707** |
| Bedfordshire | 583 | 70.7% | 242 | 29.3% | 825 |
| Hertfordshire | 965 | 78.8% | 259 | 21.2% | 1,224 |
| Thames Valley | 1,841 | 69.3% | 817 | 30.7% | 2,658 |
| **Wessex** | **3,774** | **70.1%** | **1,609** | **29.9%** | **5,383** |
| Dorset | 756 | 71.1% | 308 | 28.9% | 1,064 |
| Hampshire & IOW | 2,355 | 68.9% | 1,063 | 31.1% | 3,418 |
| Wiltshire | 663 | 73.6% | 238 | 26.4% | 901 |
| **West Midlands** | **6,126** | **72.0%** | **2,377** | **28.0%** | **8,503** |
| Staffordshire | 1,317 | 72.3% | 505 | 27.7% | 1,822 |
| Warwickshire | 378 | 84.9% | 67 | 15.1% | 445 |
| West Mercia | 1,151 | 76.6% | 351 | 23.4% | 1,502 |
| West Midlands | 3,280 | 69.3% | 1,454 | 30.7% | 4,734 |
| **Yorkshire & Humberside** | **6,983** | **72.7%** | **2,616** | **27.3%** | **9,599** |
| Humberside | 1,460 | 78.0% | 412 | 22.0% | 1,872 |
| North Yorkshire | 711 | 77.5% | 207 | 22.5% | 918 |
| South Yorkshire | 1,593 | 76.2% | 498 | 23.8% | 2,091 |
| West Yorkshire | 3,219 | 68.2% | 1,499 | 31.8% | 4,718 |

| Trais domestig | Erlyniadau CPS 2010 - 2011 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Volume | % | Volume | % | |
| **42 Areas** | **59,101** | **71.9%** | **23,086** | **28.1%** | **82,187** |
| **Cymru Wales** | **3,768** | **72.7%** | **1,412** | **27.3%** | **5,180** |
| Dyfed Powys | 328 | 72.1% | 127 | 27.9% | 455 |
| Gwent | 773 | 75.7% | 248 | 24.3% | 1,021 |
| North Wales | 881 | 73.0% | 326 | 27.0% | 1,207 |
| South Wales | 1,786 | 71.5% | 711 | 28.5% | 2,497 |
| **Eastern** | **4,352** | **79.5%** | **1,121** | **20.5%** | **5,473** |
| Cambridgeshire | 835 | 73.6% | 300 | 26.4% | 1,135 |
| Essex | 1,589 | 79.1% | 420 | 20.9% | 2,009 |
| Norfolk | 1,081 | 80.8% | 257 | 19.2% | 1,338 |
| Suffolk | 847 | 85.5% | 144 | 14.5% | 991 |
| **East Midlands** | **4,724** | **74.2%** | **1,644** | **25.8%** | **6,368** |
| Derbyshire | 1,297 | 76.0% | 410 | 24.0% | 1,707 |
| Leicestershire | 1,035 | 76.3% | 322 | 23.7% | 1,357 |
| Lincolnshire | 534 | 76.9% | 160 | 23.1% | 694 |
| Northamptonshire | 567 | 70.0% | 243 | 30.0% | 810 |
| Nottinghamshire | 1,291 | 71.7% | 509 | 28.3% | 1,800 |
| **London** | **6,204** | **58.7%** | **4,366** | **41.3%** | **10,570** |
| **Merseyside & Cheshire** | **2,501** | **70.6%** | **1,042** | **29.4%** | **3,543** |
| Cheshire | 1,008 | 73.1% | 371 | 26.9% | 1,379 |
| Merseyside | 1,493 | 69.0% | 671 | 31.0% | 2,164 |
| **North East** | **4,088** | **73.5%** | **1,477** | **26.5%** | **5,565** |
| Cleveland | 939 | 68.2% | 438 | 31.8% | 1,377 |
| Durham | 885 | 80.4% | 216 | 19.6% | 1,101 |
| Northumbria | 2,264 | 73.3% | 823 | 26.7% | 3,087 |
| **North West** | **9,091** | **75.0%** | **3,024** | **25.0%** | **12,115** |
| Cumbria | 619 | 79.0% | 165 | 21.0% | 784 |
| Greater Manchester | 4,744 | 75.0% | 1,584 | 25.0% | 6,328 |
| Lancashire | 3,728 | 74.5% | 1,275 | 25.5% | 5,003 |
| **South East** | **3,052** | **74.8%** | **1,028** | **25.2%** | **4,080** |
| Kent | 1,197 | 75.8% | 382 | 24.2% | 1,579 |
| Surrey | 380 | 75.1% | 126 | 24.9% | 506 |
| Sussex | 1,475 | 73.9% | 520 | 26.1% | 1,995 |
| **South West** | **3,674** | **75.4%** | **1,197** | **24.6%** | **4,871** |
| Avon & Somerset | 1,793 | 75.1% | 594 | 24.9% | 2,387 |
| Devon & Cornwall | 1,412 | 75.3% | 462 | 24.7% | 1,874 |
| Gloucestershire | 469 | 76.9% | 141 | 23.1% | 610 |
| **Thames & Chiltern** | **3,060** | **73.4%** | **1,109** | **26.6%** | **4,169** |
| Bedfordshire | 526 | 70.7% | 218 | 29.3% | 744 |
| Hertfordshire | 902 | 80.2% | 223 | 19.8% | 1,125 |
| Thames Valley | 1,632 | 71.0% | 668 | 29.0% | 2,300 |
| **Wessex** | **3,272** | **70.8%** | **1,352** | **29.2%** | **4,624** |
| Dorset | 643 | 70.0% | 275 | 30.0% | 918 |
| Hampshire & IOW | 2,061 | 69.9% | 889 | 30.1% | 2,950 |
| Wiltshire | 568 | 75.1% | 188 | 24.9% | 756 |
| **West Midlands** | **5,207** | **71.9%** | **2,036** | **28.1%** | **7,243** |
| Staffordshire | 1,128 | 71.7% | 446 | 28.3% | 1,574 |
| Warwickshire | 321 | 85.6% | 54 | 14.4% | 375 |
| West Mercia | 939 | 77.7% | 270 | 22.3% | 1,209 |
| West Midlands | 2,819 | 69.0% | 1,266 | 31.0% | 4,085 |
| **Yorkshire & Humberside** | **6,108** | **72.8%** | **2,278** | **27.2%** | **8,386** |
| Humberside | 1,217 | 78.2% | 340 | 21.8% | 1,557 |
| North Yorkshire | 623 | 79.4% | 162 | 20.6% | 785 |
| South Yorkshire | 1,391 | 76.9% | 417 | 23.1% | 1,808 |
| West Yorkshire | 2,877 | 67.9% | 1,359 | 32.1% | 4,236 |

| Treisio | Erlyniadau CPS 2010 - 2011 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Areas** | **2,465** | **58.6%** | **1,743** | **41.4%** | **4,208** |
| **Cymru Wales** | **146** | **52.5%** | **132** | **47.5%** | **278** |
| Dyfed Powys | 17 | 47.2% | 19 | 52.8% | 36 |
| Gwent | 35 | 61.4% | 22 | 38.6% | 57 |
| North Wales | 34 | 68.0% | 16 | 32.0% | 50 |
| South Wales | 60 | 44.4% | 75 | 55.6% | 135 |
| **Eastern** | **145** | **68.4%** | **67** | **31.6%** | **212** |
| Cambridgeshire | 35 | 72.9% | 13 | 27.1% | 48 |
| Essex | 56 | 65.1% | 30 | 34.9% | 86 |
| Norfolk | 21 | 58.3% | 15 | 41.7% | 36 |
| Suffolk | 33 | 78.6% | 9 | 21.4% | 42 |
| **East Midlands** | **166** | **56.7%** | **127** | **43.3%** | **293** |
| Derbyshire | 48 | 54.5% | 40 | 45.5% | 88 |
| Leicestershire | 33 | 70.2% | 14 | 29.8% | 47 |
| Lincolnshire | 16 | 94.1% | 1 | 5.9% | 17 |
| Northamptonshire | 28 | 56.0% | 22 | 44.0% | 50 |
| Nottinghamshire | 41 | 45.1% | 50 | 54.9% | 91 |
| **London** | **448** | **52.0%** | **413** | **48.0%** | **861** |
| **Merseyside & Cheshire** | **82** | **57.7%** | **60** | **42.3%** | **142** |
| Cheshire | 28 | 66.7% | 14 | 33.3% | 42 |
| Merseyside | 54 | 54.0% | 46 | 46.0% | 100 |
| **North East** | **144** | **65.5%** | **76** | **34.5%** | **220** |
| Cleveland | 42 | 70.0% | 18 | 30.0% | 60 |
| Durham | 39 | 57.4% | 29 | 42.6% | 68 |
| Northumbria | 63 | 68.5% | 29 | 31.5% | 92 |
| **North West** | **298** | **62.3%** | **180** | **37.7%** | **478** |
| Cumbria | 19 | 76.0% | 6 | 24.0% | 25 |
| Greater Manchester | 200 | 62.9% | 118 | 37.1% | 318 |
| Lancashire | 79 | 58.5% | 56 | 41.5% | 135 |
| **South East** | **165** | **55.2%** | **134** | **44.8%** | **299** |
| Kent | 65 | 58.0% | 47 | 42.0% | 112 |
| Surrey | 36 | 50.0% | 36 | 50.0% | 72 |
| Sussex | 64 | 55.7% | 51 | 44.3% | 115 |
| **South West** | **154** | **69.4%** | **68** | **30.6%** | **222** |
| Avon & Somerset | 65 | 62.5% | 39 | 37.5% | 104 |
| Devon & Cornwall | 63 | 75.0% | 21 | 25.0% | 84 |
| Gloucestershire | 26 | 76.5% | 8 | 23.5% | 34 |
| **Thames & Chiltern** | **111** | **55.0%** | **91** | **45.0%** | **202** |
| Bedfordshire | 14 | 60.9% | 9 | 39.1% | 23 |
| Hertfordshire | 20 | 76.9% | 6 | 23.1% | 26 |
| Thames Valley | 77 | 50.3% | 76 | 49.7% | 153 |
| **Wessex** | **105** | **53.3%** | **92** | **46.7%** | **197** |
| Dorset | 28 | 75.7% | 9 | 24.3% | 37 |
| Hampshire & IOW | 51 | 45.5% | 61 | 54.5% | 112 |
| Wiltshire | 26 | 54.2% | 22 | 45.8% | 48 |
| **West Midlands** | **240** | **60.6%** | **156** | **39.4%** | **396** |
| Staffordshire | 52 | 67.5% | 25 | 32.5% | 77 |
| Warwickshire | 20 | 76.9% | 6 | 23.1% | 26 |
| West Mercia | 48 | 59.3% | 33 | 40.7% | 81 |
| West Midlands | 120 | 56.6% | 92 | 43.4% | 212 |
| **Yorkshire & Humberside** | **261** | **64.0%** | **147** | **36.0%** | **408** |
| Humberside | 76 | 71.0% | 31 | 29.0% | 107 |
| North Yorkshire | 23 | 62.2% | 14 | 37.8% | 37 |
| South Yorkshire | 63 | 60.6% | 41 | 39.4% | 104 |
| West Yorkshire | 99 | 61.9% | 61 | 38.1% | 160 |

| Troseddau rhywiol ac eithrio treisio | Erlyniadau CPS 2010 - 2011 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Areas** | **6,588** | **74.3%** | **2,274** | **25.7%** | **8,862** |
| **Cymru Wales** | **389** | **72.6%** | **147** | **27.4%** | **536** |
| Dyfed Powys | 39 | 57.4% | 29 | 42.6% | 68 |
| Gwent | 69 | 68.3% | 32 | 31.7% | 101 |
| North Wales | 96 | 82.8% | 20 | 17.2% | 116 |
| South Wales | 185 | 73.7% | 66 | 26.3% | 251 |
| **Eastern** | **372** | **77.3%** | **109** | **22.7%** | **481** |
| Cambridgeshire | 80 | 74.1% | 28 | 25.9% | 108 |
| Essex | 140 | 80.0% | 35 | 20.0% | 175 |
| Norfolk | 84 | 78.5% | 23 | 21.5% | 107 |
| Suffolk | 68 | 74.7% | 23 | 25.3% | 91 |
| **East Midlands** | **522** | **76.3%** | **162** | **23.7%** | **684** |
| Derbyshire | 112 | 76.7% | 34 | 23.3% | 146 |
| Leicestershire | 131 | 79.9% | 33 | 20.1% | 164 |
| Lincolnshire | 68 | 80.0% | 17 | 20.0% | 85 |
| Northamptonshire | 71 | 71.7% | 28 | 28.3% | 99 |
| Nottinghamshire | 140 | 73.7% | 50 | 26.3% | 190 |
| **London** | **1,107** | **68.4%** | **512** | **31.6%** | **1,619** |
| **Merseyside & Cheshire** | **279** | **78.8%** | **75** | **21.2%** | **354** |
| Cheshire | 108 | 80.0% | 27 | 20.0% | 135 |
| Merseyside | 171 | 78.1% | 48 | 21.9% | 219 |
| **North East** | **374** | **75.6%** | **121** | **24.4%** | **495** |
| Cleveland | 125 | 76.7% | 38 | 23.3% | 163 |
| Durham | 88 | 71.0% | 36 | 29.0% | 124 |
| Northumbria | 161 | 77.4% | 47 | 22.6% | 208 |
| **North West** | **682** | **74.9%** | **229** | **25.1%** | **911** |
| Cumbria | 62 | 73.8% | 22 | 26.2% | 84 |
| Greater Manchester | 355 | 73.2% | 130 | 26.8% | 485 |
| Lancashire | 265 | 77.5% | 77 | 22.5% | 342 |
| **South East** | **539** | **78.9%** | **144** | **21.1%** | **683** |
| Kent | 268 | 79.8% | 68 | 20.2% | 336 |
| Surrey | 77 | 77.0% | 23 | 23.0% | 100 |
| Sussex | 194 | 78.5% | 53 | 21.5% | 247 |
| **South West** | **416** | **78.2%** | **116** | **21.8%** | **532** |
| Avon & Somerset | 211 | 81.2% | 49 | 18.8% | 260 |
| Devon & Cornwall | 154 | 75.5% | 50 | 24.5% | 204 |
| Gloucestershire | 51 | 75.0% | 17 | 25.0% | 68 |
| **Thames & Chiltern** | **218** | **64.9%** | **118** | **35.1%** | **336** |
| Bedfordshire | 43 | 74.1% | 15 | 25.9% | 58 |
| Hertfordshire | 43 | 58.9% | 30 | 41.1% | 73 |
| Thames Valley | 132 | 64.4% | 73 | 35.6% | 205 |
| **Wessex** | **397** | **70.6%** | **165** | **29.4%** | **562** |
| Dorset | 85 | 78.0% | 24 | 22.0% | 109 |
| Hampshire & IOW | 243 | 68.3% | 113 | 31.7% | 356 |
| Wiltshire | 69 | 71.1% | 28 | 28.9% | 97 |
| **West Midlands** | **679** | **78.6%** | **185** | **21.4%** | **864** |
| Staffordshire | 137 | 80.1% | 34 | 19.9% | 171 |
| Warwickshire | 37 | 84.1% | 7 | 15.9% | 44 |
| West Mercia | 164 | 77.4% | 48 | 22.6% | 212 |
| West Midlands | 341 | 78.0% | 96 | 22.0% | 437 |
| **Yorkshire & Humberside** | **614** | **76.3%** | **191** | **23.7%** | **805** |
| Humberside | 167 | 80.3% | 41 | 19.7% | 208 |
| North Yorkshire | 65 | 67.7% | 31 | 32.3% | 96 |
| South Yorkshire | 139 | 77.7% | 40 | 22.3% | 179 |
| West Yorkshire | 243 | 75.5% | 79 | 24.5% | 322 |

# Geirfa

## Maes Trais yn erbyn Menywod a Genethod

Trais domestig: unrhyw ddigwyddiad neu ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng y rheiny[54] sydd neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau teulu, waeth beth fo eu rhywedd neu rywioldeb. Mae aelodau teulu'n cynnwys mam, tad, mab, merch, chwaer, a thaid a nain, p'un a ydynt yn berthynas uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu'n lys deulu.

Treisio: unrhyw ddiffynnydd a gyhuddwyd gydag un neu fwy o'r troseddau canlynol -

- S1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- S5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod o dan y Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981
- S1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- S5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- S30(3) Troseddau Rhywiol act 2003
    - Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod o dan y Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981

Ysgogi neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod

Troseddau rhywiol ac eithrio treisio: unrhyw ddiffynnydd y mae ei gategori prif drosedd, wrth ei gwblhau, yn drosedd rywiol ac eithrio treisio.

Priodas dan orfod: Bydd unrhyw drosedd droseddol o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd yng nghyd-destun priodas dan orfod yn cael ei fflagio felly un ai:

- i orfodi parti/partïon i briodi heb eu caniatâd, a fuasai'n cael ei erlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. aflonyddu, cipio, bygwth lladd; neu
- ar ôl priodas dan orfod heb ganiatâd un neu y ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor, a fuasai unwaith eto yn cael ei erlyn am y drosedd benodol e.e. treisio, ymosodiad rhywiol.

Bydd y diffiniad o briodas dan orfod a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r un a ddefnyddir gan y Swyddfa

[54] Yn y CPS bydd achosion yn cael eu monitro ar gyfer oedolion a'r rhai dan 18.

Gartref: 'Priodas heb ganiatâd un neu'r ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor'.

Cafwyd eglurhad Y Llys Apêl ar orfodaeth, sef: '[pan fo] meddwl yr ymgeisydd wedi'i lethu, sut bynnag yr achoswyd hynny'. Mae priodas a drefnwyd yn wahanol iawn i briodas dan orfod. Mae'r ddau unigolyn yn mynd, yn rhydd, i briodas a drefnwyd, er bod eu teuluoedd yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses o ddewis partner.

| | |
|---|---|
| Trais yn seiliedig ar anrhydedd: | Bydd unrhyw drosedd droseddol o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd felly ac a elwir yn drosedd anrhydedd yn cael ei fflagio fel trais yn seiliedig ar anrhydedd. Buasai achosion yn cael eu herlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. ymosodiad cyffredin, GBH, aflonyddu, cipio, treisio, bygwth lladd, llofruddiaeth. |

Y diffiniad o drais yn seiliedig ar anrhydedd a ddefnyddir yw hwnnw a fabwysiadwyd gan yr Uned Priodas dan Orfod yn y Swyddfa Gartref: "'Mae'r hyn a elwir yn drais yn seiliedig ar anrhydedd' yn drosedd neu'n ddigwyddiad a gyflawnwyd neu o bosib a gyflawnwyd i ddiogelu neu i amddiffyn anrhydedd y teulu ac/ neu'r gymuned".

| | |
|---|---|
| Camdriniaeth plant: | Unrhyw drosedd droseddol sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf a welir yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant ac sy'n ymwneud â dioddefwr dan 18 oed. |

Mae camdriniaeth plant yn cynnwys troseddau troseddol – boed yn gorfforol, emosiynol neu rywiol - yn ogystal ag esgeuluso plentyn. Buasai achosion o'r fath fel arfer yn cynnwys, er enghraifft:

- ymosodiad gan riant pan fo cerydd rhesymol ddim yn amddiffyniad;
- troseddau rhywiol;
- lladdiad plant;
- creulondeb yn erbyn plentyn, gan gynnwys esgeulustod;
- puteindra plant;
- aflonyddu;
- cefnu ar blentyn/blant;
- priodas dan orfod yn cynnwys un dan 18 oed;
- pornograffi plant;
- plant sy'n cael eu masnachu;
- cipio teuluol; a

- camdriniaeth plant hanesyddol a'r dioddefwr bellach yn oedolyn.

Mae'r achosion na chaent, fel arfer, eu fflagio yn cynnwys:

- troseddau moduro pan fo'r plentyn wedi ei anafu neu wedi'i ladd;
- esgeulustod meddygol; a
- throseddau eiddo.

Masnachu mewn pobl: defnyddir y faner masnachu mewn pobl yn achos:

- Y troseddau sy'n cael eu fflagio yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Adrannau 57, 58 a 59); a
- Deddf Lloches a Mewnfudo [Trin Hawlwyr] 2004 Adran 4(1), (2) a (3).

Defnyddir y faner ar gychwyn yr achos; bydd y faner hon yn parhau'n ei lle hyd yn oed pan fo'r cyhuddiadau wedi hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng. Pan fo achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ac wedyn yn cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid fflagio'r achos ar y cam hwnnw.

## Termau rheoli perfformiad

**Baneri Monitro:** mae mathau sensitif o achosion wedi'u dynodi gan nifer o faneri monitro, a'u defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn cyhuddo. Mae'r baneri'n caniatáu i reolwyr fonitro'r achosion yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ddeilliannau yn dilyn diwedd yr achos.

**Prif droseddau:** Categori prif drosedd: mae troseddau a gyhuddwyd yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori troseddol i ddangos beth yw math a difrifoldeb y cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd. Mae'r Categori Prif Drosedd yn dangos y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddwyd y diffynnydd ohoni **adeg cwblhau.** Pan fo natur y cyhuddiadau'n newid yn ystod oes yr achos, efallai y bydd y Brif Drosedd adeg cwblhau yn wahanol i'r hyn a ymddangosai'n briodol ar adeg flaenorol yn y camau. Yn yr holl achosion o'r fath, y categori Prif Drosedd a gofnodir yw'r un sy'n berthnasol **adeg cwblhau**, p'un a yw'n fwy difrifol neu'n llai difrifol na'r hyn oedd yn berthnasol ynghynt yn oes yr achos.

Pan fo diffynnydd yn wynebu nifer o gyhuddiadau dan wahanol Gategorïau Prif Drosedd, dewis yr un fwyaf difrifol yn ôl y drefn flaenoriaeth a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Lladdiad: | Mae 'Lladdiad' yn cynnwys nifer o droseddau a chan gynnwys - llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio, bygwth lladd, lladdiad, cynllwynio neu gymell i gyflawni llofruddiaeth ac achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus. |
| Troseddau yn erbyn yr unigolyn: | Mae 'Troseddau yn erbyn yr unigolyn' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys – niwed corfforol difrifol, ymosodiad gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, ymosodiad cyffredin, meddiannu dryll gyda'r bwriad o achosi ofn trais a chipio plentyn. |
| Troseddau rhywiol: | Mae 'Troseddau Rhywiol' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys - treisio, sodomiaeth, ymosodiad rhywiol, deuwriaeth/dwywreiciaeth, caffael ac anweddustra difrifol gyda phlentyn. |
| Difrod troseddol: | Mae 'Difrod troseddol' yn cynnwys troseddau megis llosgi bwriadol, difrod troseddol neu faleisus, a llosgi bwriadol neu ddifrod troseddol sy'n peryglu bywyd. |
| Troseddau trefn gyhoeddus: | Mae 'Troseddau Trefn Gyhoeddus' yn cynnwys terfysg, anhrefn treisgar neu achosi ffrwgwd. |

## Deilliannau achosion

| | |
|---|---|
| **Penderfyniadau cyn-cyhuddo**: | Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a phan ddisgwylir ple euog, Erlynyddion y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid cyhuddo unigolyn gyda throsedd ac, os felly, pa drosedd ddylai honno fod, yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr. |
| Wedi'i gyhuddo: | achosion lle penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo. |
| Cais am dystiolaeth bellach: | ble gwneir cais am ragor o wybodaeth neu weithredu, neu lle'r ystyrir hynny'n angenrheidiol. |
| Dim erlyniad: | achosion lle bydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| Pob penderfyniad arall: | ble rhoddir rhybudd, cerydd neu rybudd terfynol; ble cafodd y drosedd ei hystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill; neu lle methodd y diffynnydd ateb i fechnïaeth a bod gwarant wedi'i chyflwyno. |
| **Erlyniadau**: | yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n |

euog, y rhai a gwblhawyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw.

Deilliannau aflwyddiannus: yr holl erlyniadau a gwblhawyd ble na chafodd y diffynnydd ei euogfarnu, sy'n cynnwys y canlynol:

Diffyg parhad a thynnu'n ôl: Gall ystyriaeth o'r dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain at i'r CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yma fe gynhwysir achosion a derfynir yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rhai ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, a'r rhai a dynnir yn ôl yn y llys. Yma hefyd cynhwysir achosion lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch.

Gwrthod ar ôl treial llawn: achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad.

Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu: achosion ble ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.

Rhyddfarnu gan reithgor: pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor.

Yr holl ddeilliannau aflwyddiannus eraill: yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, traddodebau a ryddhawyd, a dim achos i'w ateb.

Cwblhau gwaith gweinyddol: pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio: neu lle bo achosion yn cael eu gohirio'n amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae'n bosib yr ail-agorir yr achos.

Traddodebau a ryddhawyd: achosion traddodi pan fo'r diffynnydd yn cael ei ryddhau. Yn dilyn rhyddhau, gellir ailgychwyn achos.

Dim achos i'w ateb: achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad.

| | |
|---|---|
| Euogfarnau: | achosion lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, sy'n cynnwys: |
| Ple euog: | lle bydd y diffynnydd yn pledio'n euog. |
| Euogfarn yn dilyn treial: | achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog ar ôl gwrando'r dystiolaeth. |
| Prawf yn absenoldeb: | troseddau llai yw'r rhain a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd. |

**Rhesymau dros ddeilliannau aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Dioddefwr yn tynnu'n ôl: | ble bo tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |
| Dioddefwr ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefwr yn dyst mewn treial, ond bydd yn methu mynychu'r llys. |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y drosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ddeilliant aflwyddiannus, ond, serch hynny, nid yw'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl. |
| Rhyddfarnau ar ôl treial: | mae'r diffynnydd yn ei gael yn ddieuog gan yr ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawiad sy'n cael ei herio pan fo'r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno'i achos |

## Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**Mae copïau pellach o'r adroddiad ar gael i'w lawr lwytho mewn Adobe Acrobat PDF ar wefan y CPS**

## www.cps.gov.uk

Tachwedd 2011